



Cymorth awdurdodau lleol i ysgolion i reoli eu cyllidebau

Mawrth 2026

Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion pob oed
- ysgolion arbennig a gynhelir
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg llywodraeth leol
- trefniadau trochi yn y Gymraeg mewn awdurdodau lleol
- gwasanaethau gwaith ieuenctid
- addysg gychwynnol athrawon
- Cymraeg i oedolion
- prentisiaethau
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn adrodd i Senedd Cymru ac yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Lywodraeth Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor

Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.llyw.cymru

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir aildddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei aildddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Cynnwys

Tudalen

Crynodeb gweithredol	4
Cyflwyniad	7
Cefndir	9
Argymhellion	12
Cyngor ariannol strategol a chyfathrebu	14
Gosod cyllideb a thryloywder	20
Hyfforddiant a llythrennedd ariannol	25
Monitro, risg ac ymyrraeth	29
Defnyddio grantiau targedig	33
Hybu tegwch a chynaliadwyedd	37
Dulliau a sail y dystiolaeth	42
Geirfa	46
Cyfeiriadau	49

Crynodeb gweithredol

Mae awdurdodau lleol yn chwarae rhan hollbwysig wrth helpu ysgolion i gynllunio, rheoli a defnyddio eu hadnoddau ariannol. Ar adeg o gostau cynyddol, newidiadau demograffig a phwysau cynyddol ar gyllidebau ysgolion, mae cymorth o ansawdd uchel gan awdurdodau lleol yn hanfodol er mwyn i ysgolion barhau'n sefydlog yn ariannol a gallu blaenoriaethu adnoddau i fodloni anghenion disgyblion. Mae'r adroddiad hwn yn ystyried pa mor effeithiol y mae awdurdodau lleol yn cynorthwyo ysgolion o ran rheoli cyllidebau a chynllunio ariannol strategol. Mae'r adroddiad yn defnyddio tystiolaeth o arolwg cenedlaethol o awdurdodau lleol, cyrff llywodraethol ac arweinwyr ysgolion, yn ogystal ag adolygiad o ddogfennaeth a chyfweiliadau â swyddogion cyllid, swyddogion addysg, penaethiaid, rheolwyr busnes ysgolion a llywodraethwyr.

Diben yr adolygiad

Nod yr adolygiad hwn yw gwerthuso natur ac effeithiolrwydd y cymorth y mae awdurdodau lleol yn ei gynnig i ysgolion a gynhelir yng Nghymru. Mae'n archwilio'r agweddau canlynol:

- eglurder ac amseroldeb cyngor ariannol
- tryloywder prosesau awdurdodau lleol ar gyfer gosod cyllidebau
- ansawdd yr hyfforddiant perthnasol i benaethiaid, rheolwyr busnes a llywodraethwyr
- sut mae awdurdodau lleol yn monitro risg, yn ymyrryd mewn ysgolion sy'n wynebu anawsterau ariannol ac yn cefnogi adferiad
- pa mor dda mae awdurdodau lleol yn helpu ysgolion i ddefnyddio grantiau targedig, fel y grant datblygu disgyblion (GDD); a
- sut mae awdurdodau lleol yn hybu tegwch a chynaliadwyedd hirdymor yn eu penderfyniadau ariannu.

Trosolwg o'r canfyddiadau

Ledled Cymru, roedd awdurdodau lleol yn dangos ymrwymiad cryf i gefnogi ysgolion a chynnal perthnasoedd proffesiynol adeiladol o ran rheoli cyllidebau a chynllunio ariannol strategol. Roedd y rhan fwyaf o ysgolion yn gwerthfawrogi'r cyngor a gawsant ac roedd ganddynt hyder yn eu timau cyllid cyswllt. Fodd bynnag, canfu'r adolygiad amrywiad sylweddol rhwng awdurdodau, yn enwedig o ran manylder y ffordd yr oeddent yn cefnogi cynllunio strategol, eglurder ac amseroldeb gwybodaeth, a'r systemau sy'n cael eu defnyddio i fonitro risg a chefnogi gwelliant.

Daeth tair neges gyffredinol i'r amlwg o'r dystiolaeth.

1. Mae cymorth ariannol gweithredol yn gryf, ond mae cymorth strategol yn anghyson

Roedd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn darparu arweiniad gweithredol cadarn. Roedd ysgolion a llywodraethwyr yn gadarnhaol ynghylch cyngor o ddydd i ddydd ar fonitro cyllidebau, codio treulio a chydymffurfiaeth. Yn y rhan fwyaf o awdurdodau, canfu ysgolion fod swyddogion yn hawdd mynd atynt ac yn ymatebol, ac roedd templedi ar gyfer rhagolygon staffio a chynllunio grantiau yn cael eu defnyddio'n eang.

At ei gilydd, roedd y cymorth strategol gan awdurdodau lleol yn amrywio'n sylweddol. Dim ond lleiafrif o awdurdodau oedd yn cynnig cymorth cyson gryf i helpu ysgolion i fodelu goblygiadau tymor canolig eu penderfyniadau, er bod llawer ohonynt yn annog cynllunio tair blynedd yn ymarferol. Mewn llawer o awdurdodau, roedd cymorth yn canolbwyntio ar fantoli cyllidebau blynyddol yn hytrach na datblygu cynlluniau hirdymor. Yn aml, roedd gallu cyfyngedig mewn awdurdodau lleol, cyhoeddiadau hwyr ynghylch cyllid grant a gweithio'n dameidiog ar draws gwasanaethau yn cyfyngu ar oruchwyliaeth strategol. Roedd arfer gref yn digwydd lle'r oedd swyddogion cyllid, adnoddau dynol (AD) a swyddogion gwella ysgolion yn cyfarfod ar y cyd ag ysgolion ac yn sicrhau bod penderfyniadau ariannol yn cyd-fynd â blaenoriaethau addysgol.

2. Roedd prosesau gosod cyllidebau yn agored ac yn dryloyw, ar y cyfan, ond roedd ansawdd, eglurder ac amseroldeb gwybodaeth yn anghyson

Fel arfer, roedd trefniadau gosod cyllidebau yn strwythuredig ac yn dryloyw yn weithdrefnol. Roedd y rhan fwyaf o awdurdodau'n cyhoeddi amserlenni cynllunio, yn cynnig cyfarfodydd â swyddogion cyllid ac yn ymgysylltu ag ysgolion trwy fforymau cyllid neu grwpiau ymgynghori. Roedd ysgolion yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd hyn ac yn dweud bod cyfathrebu yn adeiladol.

Fodd bynnag, nid oedd y wybodaeth roedd ysgolion yn ei chael yn glir neu'n amserol bob tro, er bod y rhan fwyaf o awdurdodau'n cyhoeddi arweiniad cyn pen y terfynau amser gofynnol. Roedd llawer o ysgolion yn cael trafferth deall yn hyderus sut roedd cyllidebau dirprwyedig yn cael eu cyfrifo, yn enwedig lle nad oedd fformiwlâu wedi'u hadolygu ers rhai blynyddoedd neu lle'r oedd y ddogfennaeth yn dechnegol dros ben. Roedd cyhoeddiadau cyllido hwyr gan Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol yn rhwystr mawr o hyd. Dim ond tua hanner y llywodraethwyr a holwyd mewn arolwg oedd yn teimlo eu bod yn cael gwybodaeth yn ddigon cynnar i wneud penderfyniadau hyderus o ran staffio neu'r cwricwlwm. Mewn awdurdodau â thimau cyllid bach, roedd problemau o ran capasiti weithiau'n lleihau cysondeb ac yn cyfyngu ar ddyfnder cynllunio cydweithredol.

3. Roedd systemau ar gyfer monitro risg ariannol a chynorthwyo ysgolion

sy'n cael trafferth yn llawn bwriadau da ond yn amrywio o ran eu hansawdd

Roedd y rhan fwyaf o awdurdodau'n monitro cyllidebau'n rheolaidd ac yn cynnal perthynas gefnogol ag ysgolion. Roedd llawer ohonynt yn defnyddio dangosfyrddau, systemau graddio Coch Melyn Gwyrdd neu gyfarfodydd amlasiantaeth i olrhain risgiau sy'n dod i'r amlwg. Yn gyffredinol, roedd ysgolion o'r farn bod timau cyllid yn ddefnyddiol iawn pan roedd diffygion ariannol yn dod i'r amlwg.

Roedd cymorth ar gyfer cynllunio hirdymor ar ei gryfaf lle'r oedd awdurdodau'n darparu rhagamcanion aml-flwyddyn ac yn helpu ysgolion i ddeall tueddiadau demograffig a goblygiadau costau staffio. Fodd bynnag, nid oedd cysondeb o ran nodi risgiau'n gynnar. Roedd lleiafrif o awdurdodau'n defnyddio data ariannol, adnoddau dynol a gwella ysgolion integredig i nodi pwyseddau. Mewn llawer o ardaloedd, roedd adfer diffygion ariannol yn canolbwyntio ar arbedion uniongyrchol yn hytrach na chynaliadwyedd hirdymor. Roedd dulliau o ymdrin â grantiau targedig, fel y grant datblygu disgyblion (GDD), yn cael eu llywio gan gydymffurfiaeth yn bennaf, gyda gwerthusiad cyfyngedig o effaith. Ychydig iawn o awdurdodau lleol oedd yn dangos dull mwy strategol o ddefnyddio grantiau targedig, er enghraifft trwy eu cydgrynhoi i raglenni ehangach i gysylltu'r defnydd ohonynt yn glir â blaenoriaethau a dadansoddi deilliannau.

Cyflwyniad

Mae'r adolygiad thematig hwn yn ymateb i gais am gyngor gan Lywodraeth Cymru¹ a'i nod yw darparu darlun cenedlaethol annibynnol o ba mor dda mae awdurdodau lleol yn cynorthwyo ysgolion i reoli eu cyllidebau a chynllunio ar gyfer cynaliadwyedd ariannol hirdymor.

Mae'r gynulleidfa fwriadedig ar gyfer yr adroddiad hwn yn cynnwys Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, arweinwyr ysgolion, cyrff llywodraethol a sefydliadau partner sy'n ymwneud â chyllid ysgolion, llywodraethu ariannol a gwella ysgolion. Bydd hefyd o ddiddordeb i sefydliadau sy'n gweithio ar ddatblygu polisi, tegwch, rheoli adnoddau a gallu arweinyddiaeth ledled Cymru.

Mae'r adroddiad yn cynnig trosolwg cryno o natur ac effeithiolrwydd cymorth awdurdodau lleol i ysgolion mewn chwe maes, sef:

1. Cyngor ariannol strategol a chyfathrebu
2. Tryloywder a chydweithio mewn prosesau gosod cyllideb
3. Hyfforddiant a llythrennedd ariannol
4. Monitro, nodi risgiau ac ymyrraeth
5. Cymorth i ddefnyddio grantiau targedig; a
6. Thegwch a chynaliadwyedd mewn ariannu a chynllunio.

I lywio'r gwerthusiad hwn, manteisiodd Estyn ar ystod eang o dystiolaeth. Roedd y gwaith maes yn cynnwys ymweld â 13 o awdurdodau lleol, rhaglen sylweddol o gyfweiliadau â swyddogion cyllid, swyddogion gwella ysgolion, penaethiaid, rheolwyr busnes ysgolion a llywodraethwyr. Ategwyd hyn gan ddau arolwg cenedlaethol: un a anfonwyd at bob un o'r 22 awdurdod lleol ac un arall a anfonwyd at bob corff llywodraethol ac arweinydd ysgol. Cynhaliodd Estyn adolygiad manwl o ddogfennau presennol hefyd, gan gynnwys canllawiau ariannol Llywodraeth Cymru, adroddiadau awdurdodau lleol, polisiâu cyllideb awdurdodau lleol a thystiolaeth berthnasol arall.

¹ [Cylch gwaith blynyddol Estyn: 2025 i 2026 \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#)

Ceir rhagor o fanylion am y dulliau a ddefnyddiwyd yn adran dulliau a sail y dystiolaeth yr adroddiad.

Trwy gydol yr adroddiad, rydym yn tynnu sylw at ddulliau effeithiol, yn nodi rhwystrau systemig ac yn defnyddio dystiolaeth i ddarparu argymhellion clir ar gyfer cryfhau arweinyddiaeth ariannol, gwella tryloywder a chefnogi cynllunio hirdymor mwy cynaliadwy ledled Cymru.

Ar draws yr adrannau yn yr adroddiad, roedd cyfyngiadau strwythurol cyffredin — gan gynnwys gallu awdurdodau lleol, cyhoeddiadau cenedlaethol hwyr ynghylch cyllid a gweithio'n dameidiog ar draws gwasanaethau — yn llunio profiad ysgolion o gymorth ariannol. Felly, cyfeirir at y ffactorau hyn trwy gydol yr adroddiad ac ni chânt eu hailddatgan yn llawn ym mhob adran.

Cefndir

Mae'r adolygiad thematig hwn yn adeiladu ar bryderon Llywodraeth Cymru a'r Senedd ynghylch pwysau ariannol cynyddol ar ysgolion, amrywioldeb mewn fformiwlâu ariannu a'r nifer gynyddol o ysgolion sydd â diffygion yn eu cyllideb. Nid oedd unrhyw waith thematig blaenorol gan Estyn yn canolbwyntio'n benodol ar y cymorth ariannol y mae awdurdodau lleol yn ei ddarparu i ysgolion. Ar 31 Mawrth 2025, roedd ystadegau Llywodraeth Cymru yn dangos bod gan 393 o ysgolion a gynhelir (tua 27% o'r holl ysgolion) yng Nghymru gronfeydd wrth gefn negyddol, sef cyfanswm o £72 miliwn.

Tabl 1: Nifer yr ysgolion â chronfeydd wrth gefn fel canran o wariant dirprwyedig ysgolion ar 31 Mawrth 2025

Sector	Negyddol	Llai na 5%	Rhwng 5% a 10%	Dros 10%	Pob ysgol
Meithrin	2	0	0	4	6
Cynradd	296	372	286	261	1,215
Canol	15	8	4	4	31
Uwchradd	71	64	29	12	176
Arbennig	9	15	10	5	39
Cyfanswm	393	459	329	286	1,467

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2025), *Cronfeydd wrth gefn ysgolion ar 31 Mawrth 2025*

Mae tystiolaeth o waith arolygu Estyn yn dangos, er bod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn cynnig cymorth ariannol gweithredol cadarn i ysgolion, bod ansawdd a chysondeb cyngor ariannol strategol yn amrywio'n fawr ledled Cymru. Mae llawer o ysgolion yn gwerthfawrogi'r cymorth a gânt o ddydd i ddydd gan dimau cyllid awdurdodau lleol ond, yn aml, nid ydynt yn gallu manteisio cystal ar fodelu strategol, cynllunio aml-flwyddyn neu gymorth integredig sy'n cysylltu penderfyniadau ariannol â dewisiadau o ran y cwricwlwm a staffio. Mae tystiolaeth o holiaduron cyn-arolygiad a gwblhawyd gan lywodraethwyr ysgolion mewn arolygiadau ym mlwyddyn academiaidd 2024-25 yn dangos mai dim ond lleiafrif o lywodraethwyr a ymatebodd a gafodd hyfforddiant ar reoli cyllideb yr ysgol².

² Gofynnwyd 'Ydych chi wedi cael yr hyfforddiant canlynol i'ch cynorthwyo yn eich rôl fel llywodraethwr ysgol? Dewiswch bob un sy'n berthnasol'. 'Rheoli'r gyllideb' oedd un o'r sawl opsiwn. Roedd data o arolygiadau 2024 – 25 yn dangos bod 33.8% o 1,512 o lywodraethwyr ysgolion cynradd, 33.6% o 301 o lywodraethwyr ysgolion uwchradd, a 35.1% o 77 o lywodraethwyr ysgolion pob oed wedi cael hyfforddiant felly. Gallwch weld y cwestiynau rydym yn eu gofyn mewn holiaduron cyn-arolygiad yma: [Holiaduron arolygu - Estyn](#).

Mae ystod o adroddiadau diweddar wedi tynnu sylw at faterion strwythurol mewn cyllid ysgolion sy'n golygu bod cymorth gan awdurdodau lleol yn gynyddol bwysig. Nododd Adolygiad Llywodraeth Cymru o'r Fformiwla Cyllido Ysgolion (2025) anghysondebau sylweddol rhwng awdurdodau lleol o ran sut mae cyllid yn cael ei ddyrannu a'i gyfleu, gyda thryloywder a chymaroldeb cyfyngedig ledled Cymru. Mae'r anghysondebau hyn yn creu heriau i arweinwyr ysgolion, y mae'n rhaid iddynt ddehongli gwybodaeth ariannol gymhleth a chynllunio mewn cyd-destunau ariannol ansicr. Ers hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau bwrw ymlaen â rhaglen waith i fynd i'r afael â'r materion hyn, gan gynnwys newidiadau i reoliadau a chanllawiau wedi'u diweddarau, gyda'r nod o wella tryloywder, cymaroldeb a chysondeb yn y system cyllido ysgolion.

Galwodd craffu pellach gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (2025) am wybodaeth gliriach ynghylch cyfrifoldebau dros brydau ysgol am ddim i bawb, cyllid Seren a thryloywder gwasanaethau gwella rhanbarthol. Roedd yr argymhellion hyn yn tynnu sylw at yr angen i awdurdodau lleol gyfathrebu'n gliriach sut mae penderfyniadau cenedlaethol yn trosi'n gyllidebau ar lefel ysgolion.

Ochr yn ochr â hyn, mae pwysau economaidd a pholisi ehangach yn parhau i effeithio ar gyllidebau ysgolion. Crybwyllodd Ymchwil y Senedd (2025), er bod awdurdodau lleol wedi cael cynnydd o 4.5% mewn cyllid craidd, mae dyfarniadau cyflog cynyddol, pwysau chwyddiant a chostau cynyddol ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn parhau i erydu capasiti ariannol. Yn yr un modd, disgrifiodd NAHT Cymru (2024) argyfwng cyllid sy'n dwysáu mewn ysgolion a phwysleisio'r angen am gynllunio cryfach ar y cyd rhwng awdurdodau lleol ac ysgolion, ynghyd â mwy o gymorth strategol.

Mae ymchwil gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid (2023; 2024) ac OECD (2024) wedi atgyfnerthu'r ddadl bod aliniad gwell rhwng cyllid ysgolion, cynllunio strategol a deilliannau disgyblion yn hanfodol. Er bod gwariant fesul disgybl yng Nghymru yn cyd-fynd yn fras â gweddill y DU, a bod gwariant ledled y DU yn gymharol uchel yn rhyngwladol, mae deilliannau'n amrywiol o hyd a chynaliadwyedd ariannol yn anghyson. Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu bod pa mor effeithiol y caiff cyllidebau eu cynllunio, eu defnyddio a'u monitro yr un mor bwysig â faint o arian sy'n cael ei ddyrannu.

Mae llenyddiaeth arall yn tynnu sylw at heriau yn ymwneud â thegwch, yn enwedig cywirdeb mesurau procsi ar gyfer amddifadedd. Er enghraifft, mae cyflwyno darpariaeth prydau ysgol am ddim i bawb mewn ysgolion cynradd yn cymhlethu'r defnydd o gymhwysedd prydau ysgol am ddim i fesur amddifadedd, gan gynyddu'r angen i awdurdodau lleol fireinio data a sicrhau bod dyraniadau'n parhau i fod yn deg.

Canfu'r Adolygiad o'r Grant Datblygu Disgyblion (Llywodraeth Cymru, 2023) amrywiad sylweddol hefyd yn y ffordd y mae awdurdodau lleol yn monitro effaith ac yn cynorthwyo ysgolion i wneud penderfyniadau wedi'u seilio ar dystiolaeth ynghylch gwario grantiau. Yn fwy diweddar, nododd Llywodraeth Cymru ragor o newidiadau i'r ffordd y caiff y grant datblygu disgyblion ei weithredu mewn datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2025. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cymryd camau i symleiddio cyllid cenedlaethol trwy'r Grant Addysg Awdurdod Lleol, gan gyfuno sawl grant blaenorol yn bedair elfen graidd i leihau biwrocratiaeth a gwella aliniad â threfniadau atebolrwydd lleol.

Gyda'i gilydd, mae'r dystiolaeth bresennol hon yn dangos sail resymegol gref dros adolygiad thematig cenedlaethol. Mae ysgolion yn dibynnu'n fawr ar awdurdodau lleol i ddarparu cyngor strategol, cyfathrebu amserol a monitro ariannol cadarn i'w helpu i gynllunio mewn modd cynaliadwy a chynnal addysg o ansawdd uchel i ddisgyblion. Fodd bynnag, mae'r amrywioldeb a nodwyd ledled Cymru yn awgrymu nad yw llawer o ysgolion yn cael cymorth cyson yn y meysydd hyn.

Felly, mae'r adroddiad hwn yn ceisio gwerthuso pa mor effeithiol mae awdurdodau lleol yn cyflawni'r cyfrifoldebau hyn, nodi'r arfer gryfaf a chynnig argymhellion i sicrhau bod pob ysgol—beth bynnag fo'i sector, maint neu leoliad—yn cael y cymorth ariannol sydd ei angen arni i gynllunio mewn modd hyderus a chynaliadwy.

Argymhellion

Mae'r dystiolaeth a gasglwyd ar gyfer yr adolygiad hwn yn arwain at set o argymhellion i Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol ac ysgolion a chyrrff llywodraethol. Nod yr argymhellion hyn yw cryfhau cymorth ar gyfer cynllunio ariannol strategol, gwella eglurder ac amseroldeb gwybodaeth am gyllid, gwella gallu ariannol ar draws y system, a chefnogi penderfyniadau tecach a mwy cynaliadwy. Lle mae'r rhain yn ymwneud â chyllid ôl-16, bydd angen i Lywodraeth Cymru gydweithio â Medr i gyflawni'r rhain.

Ar gyfer Llywodraeth Cymru (a Medr, lle bo hynny'n berthnasol)

- **Gwella amseroldeb a rhagweladwyedd cyllid cenedlaethol, lle bo hynny'n bosibl, gan gydnabod cyfyngiadau cyllidol ac etholiadol ehangach y DU**, gan gynnwys cyhoeddi cyllidebau dirprwyedig, dyraniadau ôl-16 a hysbysiadau grant yn gynharach, wedi'u cefnogi gan ragdybiaethau aml-flwyddyn dangosol.
- **Symleiddio a moderneiddio'r system ariannu genedlaethol**, gan leihau darnio grantiau ymhellach, gwella hyblygrwydd i awdurdodau lleol a diweddarau dangosyddion amddifadedd ac ADY er mwyn sicrhau cysondeb ac adlewyrchu anghenion cyfredol yn well.
- **Sefydlu fframwaith cenedlaethol cydlynol ar gyfer dysgu ariannol**, gan osod disgwyliadau clir ar gyfer y wybodaeth a'r medrau a ddisgwylir gan swyddogion addysg, cyllid a gwella ysgolion perthnasol awdurdodau lleol, penaethiaid, rheolwyr busnes ysgolion a llywodraethwyr.
- **Buddsoddi mewn data cenedlaethol a gallu dadansoddol** i alluogi proffilio risg, meincnodi a modelau aml-flwyddyn cyson ledled Cymru.

Ar gyfer awdurdodau lleol

- **Cryfhau ansawdd y cymorth ariannol strategol** trwy ymwreiddio cynllunio aml-flwyddyn strwythuredig, modelu senarios ac aliniad clir rhwng penderfyniadau am gyllid, y cwricwlwm a'r gweithlu.
- **Cryfhau'r cymorth strategol i ysgolion sydd â diffyg ariannol** trwy sicrhau bod cynllunio adferiad ariannol yn alinio â chyngor adnoddau dynol a gwella ysgolion, wedi'i lywio gan ddadansoddiad integredig o ddata ariannol ac addysgol.
- **Gwella cydlynad ar draws gwasanaethau cyllid, adnoddau dynol, ADY a gwella ysgolion** fel bod ysgolion yn cael cyngor ac ymyrraeth gydlynol, amserol a chyson.
- **Darparu gwybodaeth ariannol glir, hygyrch ac amserol** gan gynnwys arweiniad mewn iaith glir, diweddariadau dilyniannol a gwybodaeth gynharach am gyllidebau dangosol.

- **Gwella gallu dadansoddol, y defnydd o ddata a chydnerthedd systemau**, gan ddefnyddio offerynnau fel dangosfyrddau, meincnodi a dadansoddi tueddiadau i nodi pwysau'n gynnar a llywio ymyrraeth.
- **Gwella effaith dysgu ariannol**, gan gynnig hyfforddiant strategol sy'n benodol i rolau a gwerthuso sut mae'n cryfhau penderfyniadau.

Ar gyfer ysgolion a chyrff llywodraethol

- **Ymwreiddio cynllunio ariannol tymor canolig, yn seiliedig ar y cwricwlwm**, gan sicrhau bod cynlluniau tair blynedd yn alinio â bwriadau'r cwricwlwm a gofynion y gweithlu o fewn cyllidebau.
- **Cryfhau llythrennedd ariannol a her strategol**, gydag arweinwyr a llywodraethwyr yn ymgymryd â hyfforddiant priodol ac yn craffu ar ragdybiaethau yn effeithiol.
- **Defnyddio data a gwerthuso ariannol i lywio penderfyniadau**, gan ddefnyddio meincnodi, modelu a thystiolaeth o effaith wrth gynllunio ac adolygu gwariant.
- **Ymgysylltu'n rhagweithiol â chymorth ac ymgynghori awdurdodau lleol**, gan gynnwys uwchgyfeirio risgiau'n gynnar a chymryd rhan yn weithredol mewn trafodaethau fforymau cyllideb.

Cyngor ariannol strategol a chyfathrebu

Pa gyngor ariannol strategol oedd ar gael gan awdurdodau lleol i ysgolion?

Roedd tystiolaeth o waith maes, arolygon a chyflwyniadau gan awdurdodau lleol yn dangos bod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn cynnig ystod gydlynol o gymorth ariannol gweithredol i ysgolion. Mae hyn yn cynnwys cymorth i fonitro cyllidebau, rhagweld costau staffio a llunio ffurflenni statudol, sef adroddiadau gofynnol ar sut mae cyllid ysgolion yn cael ei gynllunio a'i wario. Roedd arweinwyr ysgolion yn deall yr elfennau gweithredol hyn yn dda, ar y cyfan, ac roeddent yn ffurfio sylfaen ar gyfer perthnasoedd gwaith adeiladol. Fodd bynnag, mewn llawer o achosion, roedd ansawdd, dyfnder a chysondeb cyngor ariannol strategol yn amrywio'n sylweddol rhwng awdurdodau lleol.

Ym mron pob awdurdod, roedd swyddogion cyllid yn cefnogi'r rhan fwyaf o ysgolion i baratoi cyllidebau blynyddol, cysoni cyfrifon a chydymffurfio â gweithdrefnau ariannol lleol. Fel arfer, byddai swyddogion yn cyfarfod ag ysgolion bob tymor i adolygu eu sefyllfa ariannol a chynnig cymorth ag ymholiadau parhaus. Roedd ysgolion a llywodraethwyr yn gwerthfawrogi'r elfennau hyn. I'r gwrthwyneb, roedd gwaith strategol fel cynllunio aml-flwyddyn, modelu senarios neu ddadansoddi goblygiadau ariannol dewisiadau yn ymwneud â'r cwricwlwm a staffio yn cael sylw llai cyson. Yn aml, roedd swyddogion yn egluro bod capasiti cyfyngedig yn cyfyngu ar eu gallu i weithio'n fanwl ag ysgolion ar gynaliadwyedd tymor canolig.

Mewn lleiafrif o awdurdodau a oedd yn cynnig cyngor strategol datblygedig iawn, roedd hyn wedi'i integreiddio'n gadarn mewn gwaith gwella ysgolion ehangach. Yn yr achosion hyn, roedd swyddogion cyllid, adnoddau dynol (AD) a swyddogion gwella ysgolion yn cyfarfod ag ysgolion ar y cyd i ystyried strwythurau staffio, costau'r cwricwlwm a blaenoriaethau gwella. Roedd hyn yn helpu arweinwyr i ddeall goblygiadau hirdymor penderfyniadau ac yn galluogi awdurdodau i ymyrryd yn gynharach lle daeth risgiau i'r amlwg. Roedd arweinwyr ysgolion yn canmol y dulliau 'amlasiantaeth' hyn ar gyfer hybu negeseuon cyson a symud trafodaethau y tu hwnt i brosesau o ddydd i ddydd tuag at feddwl yn fwy strategol. Fodd bynnag, ym mwyafrif yr awdurdodau yr ymwelwyd â nhw, roedd timau cyllid a gwasanaethau gwella ysgolion yn parhau i weithredu'n gyfochrog â'i gilydd, i raddau helaeth, gan gyfyngu ar gyfleoedd i ddadansoddi ar y cyd neu ddatrys problemau ar y cyd mewn modd amserol.

Roedd cymorth strategol hefyd yn wannach mewn awdurdodau a oedd yn dibynnu ar dimau cyllid bach iawn. Mewn ychydig o achosion, roedd gan un uwch swyddog y rhan fwyaf o'r wybodaeth strategol ac roedd unrhyw absenoldeb neu drosiant staff yn tarfu

ar gymorth. Crybwyllodd ysgolion yn yr awdurdodau hyn eu bod yn cael negeseuon cymysg neu'n wynebu oedi wrth geisio cael cyngor dibynadwy. I'r gwrthwyneb, roedd awdurdodau a oedd yn buddsoddi mewn cynllunio olyniaeth, cymorth gan gymheiriaid neu fodelau rheolwr busnes a rennir yn cynnig arweiniad strategol mwy cydnerth a chyson.

Roedd ymatebion i arolygon yn atgyfnerthu'r darlun hwn, gyda llawer o gyrff llywodraethol yn crybwyll bod eu hawdurdod yn cynnig arweiniad blynyddol ar weithdrefnau gosod cyllideb. Fodd bynnag, roedd dadansoddiad o'r sylwadau yn dangos bod yr arweiniad hwn yn aml yn canolbwyntio ar gymorth gweithredol yn hytrach na chynllunio strategol. Yn yr un modd, er i lawer o ysgolion gadarnhau bod templedi ar gyfer rhagamcanion staffio neu gynllunio grantiau yn ddefnyddiol, nodwyd nad oedd templedi yn unig yn gyfystyr â chymorth strategol, oni bai eu bod yn cyd-fynd â thrafodaeth fanylach am gynaliadwyedd a blaenoriaethau.

Canfu awdurdodau sy'n wynebu nifer fawr o ysgolion â diffyg yn eu cyllideb fod eu gallu strategol wedi'i erydu gan faint o waith adfer a monitro yr oedd ei angen. O ganlyniad, daeth cyngor yn fwy adweithiol na rhagweithiol. Ceisiodd ychydig ohonynt liniaru hyn trwy gyflwyno grwpiau adfer ariannol, dangosfyrddau rhybudd cynnar neu rwydweithiau rheolwyr busnes wedi'u seilio ar glystyrau. Roedd y dulliau hyn yn gwella goruchwyliaeth ac yn helpu awdurdodau i nodi pwysau yn gynharach. Serch hynny, dim ond ychydig iawn ohonynt a oedd yn defnyddio meincnodi neu ddata tueddiadau ariannol yn systematig i lywio strategaeth hirdymor.

At ei gilydd, roedd cyngor ariannol strategol i ysgolion ar ei gryfaf lle'r oedd awdurdodau wedi buddsoddi mewn staff, wedi ymwreiddio cynllunio ar draws gwasanaethau ac wedi gweithio'n rhagweithiol ag ysgolion i werthuso cynaliadwyedd ac effaith addysgol penderfyniadau ariannol. Mewn llawer o awdurdodau, roedd rheolaeth ariannol strategol yn cael ei chyfyngu o hyd gan bwysau o ran gallu, yr angen i ymateb yn adweithiol i ddiffygion a oedd yn dod i'r amlwg ac argaeledd cyfyngedig sicrwydd ariannol aml-flwyddyn.

Astudiaeth achos – Cymorth Ariannol Strategol, Tryloyw a Chydweithredol

Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi sefydlu model cydlynol a thryloyw o gymorth ariannol sy'n rhoi rhagolygon cynnar a datrys problemau ar y cyd wrth wraidd iddo. Mae ysgolion yn cael gwybodaeth glir a hygyrch trwy blatfform digidol a rennir, sy'n eu galluogi i ddeall manylion am eu cyllidebau dirprwyedig. Mae hyn yn sail i ymddiriedaeth gref rhwng penaethiaid, llywodraethwyr a swyddogion cyllid. Mae'r awdurdod yn cyhoeddi cyllidebau dangosol yn ystod tymor yr hydref, gan alluogi ysgolion i gynllunio trefniadau staffio a'r cwricwlwm yn gynharach nag sy'n gyffredin mewn mannau eraill. Mae cyfarfodydd monitro rheolaidd, strwythuredig yn cynnwys swyddogion cyllid,

adnoddau dynol ac addysg, gan gynorthwyo ysgolion i ystyried goblygiadau hirdymor penderfyniadau. Mae'r dull integredig hwn yn helpu i nodi risgiau'n gynnar a rheoli diffygion ariannol yn fwy effeithiol.

Pa mor hygyrch, amserol a chlir yw'r cyngor a roddir gan awdurdodau lleol?

Roedd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn cymryd camau priodol i roi cyngor ariannol clir a hygyrch. Roedd ein tystiolaeth yn dangos bod ysgolion o'r farn bod timau cyllid yn hawdd mynd atynt, yn gefnogol ac yn wybodus yn eu meysydd, yn gyffredinol. Roedd swyddogion yn cyfathrebu'n rheolaidd trwy gyfarfodydd, negeseuon e-bost, sgysiau ffôn ac, mewn ychydig iawn o achosion, platfformau digidol. Roedd bron pob awdurdod a gymerodd ran yn cyhoeddi pecynnau gosod cyllideb, a oedd yn cynnwys templedi ar gyfer rhagolygon staffio, cynllunio gwario grantiau a ffurflenni ariannol. Cadarnhaodd mwyafrif yr ymatebwyr i'r arolwg o benaethiaid a llywodraethwyr eu bod wedi cael yr offerynnau hyn, a gwnaeth lawer ohonynt sylwadau ynghylch eu defnyddioldeb ar gyfer trefnu cynllunio blynyddol.

Roedd lleiafrif o awdurdodau'n gwella hygyrchedd trwy arweiniad esboniadol ychwanegol, gan gynnwys nodiadau mewn iaith glir, dogfennau cwestiynau cyffredin ac enghreifftiau ymarferol o newidiadau i fformiwlâu. Mewn ychydig o achosion, roeddent yn darparu dangosfyrddau digidol gyda gwybodaeth gyfredol am wariant. Lle'r oedd y systemau hyn ar waith, roedd gan ysgolion ddealltwriaeth gryfach o ragdybiaethau allweddol ac roedd cyrff llywodraethol yn teimlo'n fwy hyderus wrth graffu ar wybodaeth ariannol.

Mewn llawer o awdurdodau, roedd dogfennau atebol yn brin o esboniadau neu wedi'u hysgrifennu mewn iaith dechnegol yr oedd pobl nad oeddent yn arbenigwyr yn ei chael hi'n anodd ei dehongli. Nododd ysgolion a llywodraethwyr fod taenlenni'n cael eu cyflwyno'n aml heb sylwebaeth gysylltiedig, gan ei gwneud hi'n anodd deall sut roedd dyraniadau wedi'u cyfrifo neu sut roedd rhagdybiaethau wedi newid. Mewn ychydig o achosion, roedd swyddogion yn esbonio penderfyniadau cymhleth ar lafar, ond nid oedd y wybodaeth hon yn cael ei chofnodi ar ffurf y gallai cyrff llywodraethol ei hadolygu bob tro.

Er i fwyaf y cyrff llywodraethol grybwyll bod arweiniad ariannol yn cael ei gyhoeddi'n brydlon, roedd amseroldeb yn her sylweddol yn gyffredinol. Roedd bron pob awdurdod wedi'i gyfyngu gan gyhoeddi cyllidebau Llywodraeth Cymru yn hwyr a'r camaliniad rhwng y blynyddoedd ariannol ac academiaidd. O ganlyniad, roedd ysgolion yn aml yn cael eu dyraniadau terfynol yn agos at ddechrau'r flwyddyn ariannol, gan gyfyngu ar eu gallu i gynllunio newidiadau o ran staffio neu'r cwricwlwm yn hyderus. Disgrifiodd ysgolion mewn ychydig o awdurdodau eu bod yn gorfod diwygio cyllidebau fwy nag unwaith wrth i wybodaeth newydd ddod i'r amlwg, gan wneud penderfyniadau

weithiau ar ddechrau'r gwanwyn a gorfod ailgynllunio ar ôl i ddyfarniadau cyflog neu ddyraniadau grant gael eu cadarnhau.

Roedd llawer o awdurdodau'n ceisio mynd i'r afael â'r heriau hyn trwy gyhoeddi cyllidebau dangosol yn gynharach yn y cylch. Roedd y rhain yn cynnig man cychwyn i ysgolion ar gyfer cynllunio, ond roedd eu natur dros dro yn aml yn achosi rhwystredigaeth. Lle'r oedd cyllidebau dangosol yn wahanol iawn i'r ffigurau a gadarnhawyd, roedd ysgolion yn wynebu gwaith ychwanegol yn addasu cynlluniau. Roedd awdurdodau'n cydnabod y cyfyngiadau hyn ac yn crybwyll eu hanhawster eu hunain wrth ragweld yn ddibynadwy heb ffigurau cenedlaethol a gadarnhawyd.

Roedd hygyrchedd cyngor hefyd yn dibynnu ar allu a pharhad staff. Mewn llawer o awdurdodau lle'r oedd gan dimau cyllid adnoddau da a'u bod yn sefydlog, roedd cyfathrebu'n gyson ac roedd swyddogion ar gael i ymateb i ymholiadau'n gyflym. I'r gwrthwyneb, roedd ychydig o awdurdodau â llawer llai o staff yn cael trafferth cynnal lefelau gwasanaeth. Yn yr achosion hyn, roedd oedi wrth gyfathrebu a chyngor anghyson yn peri pryder ymhlith ysgolion. Roedd ychydig o awdurdodau'n dibynnu'n fawr ar un neu ddau swyddog profiadol, ac roedd absenoldeb unrhyw un o'r unigolion hyn yn arwain at fylchau amlwg mewn cymorth.

Roedd llawer o awdurdodau'n defnyddio fforymau cyllid ysgolion yn effeithiol i drafod newidiadau i fformiwlâu ariannu ac ymgynghori ag ysgolion ar faterion ariannol strategol. Roedd y fforymau hyn yn gweithio'n dda pan roedd cyfarfodydd wedi'u strwythuro, gwybodaeth yn cael ei chyflwyno'n glir ac adborth yn cael ei geisio'n weithredol. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o awdurdodau, roedd fforymau'n cael eu cynnal yn anaml neu'n dibynnu ar ddogfennau technegol yr oedd llywodraethwyr yn ei chael hi'n anodd eu dehongli. Roedd hyn yn cyfyngu ar ymgysylltiad ystyrlon ac yn lleihau tryloywder yn ymwneud â phenderfyniadau.

Er gwaethaf yr amrywiadau hyn, crybwyllodd y rhan fwyaf o ysgolion mai eu timau cyllid cyswllt oedd eu ffynhonnell wybodaeth ariannol fwyaf dibynadwy a sicr o hyd. Yn aml, roedd swyddogion yn trosi penderfyniadau cymhleth yn oblygiadau ymarferol i ysgolion ac yn egluro materion pan roedd dogfennau ysgrifenedig yn llai clir. Fodd bynnag, roedd y ddibyniaeth hon yn atgyfnerthu bregusrwydd y system lle'r oedd timau'n brin o ddyfnder neu wydnwch.

At ei gilydd, er bod y rhan fwyaf o awdurdodau'n gwneud ymdrechion dyls i roi cyngor clir a hygyrch, roedd rhwystrau systemig, yn enwedig amseriad setliadau cenedlaethol a chyfyngiadau lleol a ran capasiti, yn cyfyngu ar eu gallu i wneud hynny'n gyson. Awdurdodau a oedd yn cyfathrebu'n rheolaidd, yn darparu arweiniad ysgrifenedig o ansawdd uchel ac yn cynnal timau sefydlog, wedi'u cefnogi'n dda, oedd yn cynnig y cyngor mwyaf hygyrch ac effeithiol.

Astudiaeth achos – Rhagolygon Rhagweithiol a Chymorth yn Seiliedig ar Berthynas

Er gwaethaf tîm cyllid bach yr awdurdod, mae Cyngor Sir Ynys Môn yn cynnig cyngor ariannol strategol rhagweithiol a hygyrch iawn i ysgolion. Caiff rhagamcanion tair blynedd drafft eu rhannu yn nhymor yr hydref bob blwyddyn, gan alluogi arweinwyr i nodi pwysau'n gynnar ac archwilio senarios amgen. Caiff penaethiaid a chadeiryddion llywodraethwyr eu gwahodd i drafodaethau amlasiantaeth gyda swyddogion cyllid, adnoddau dynol ac addysg, lle mae sgysiau'n canolbwyntio ar atebion realistig a chynaliadwyedd cynlluniau ar gyfer staff a'r cwricwlwm. Mae arweinwyr yn disgrifio swyddogion cyllid yn rhai sy'n hawdd mynd atynt ac yn ymatebol yn gyson, gan gyfrannu at lefelau uwch o hyder yn y cymorth sy'n cael ei ddarparu a helpu i leihau uwchraddio i statws diffyg ffurfiol.

A oedd ysgolion yn fodlon ag ansawdd a defnyddioldeb ymgysylltiad yr awdurdod lleol?

Roedd ymatebion i arolygon, cyfweiliadau gwaith maes a thystiolaeth ddogfennol yn dangos bod y rhan fwyaf o ysgolion yn fodlon â phroffesiynoldeb a chymwynasgarwch timau cyllid eu hawdurdodau lleol. Yn gyffredin, roedd arweinwyr ysgolion yn disgrifio swyddogion cyllid yn hawdd mynd atynt, yn wybodus ac yn ymatebol. Roedd llawer ohonynt yn gwerthfawrogi'r parhad a oedd yn cael ei gynnig gan swyddogion hirsefydlog ac yn gwerthfawrogi'r cyngor ymarferol a roddwyd yn ystod cyfarfodydd monitro a sesiynau cynllunio'r gyllideb.

Roedd lefelau boddhad llywodraethwyr yn is, wrth ystyried ansawdd strategol, amseroldeb a defnyddioldeb cyfathrebu. Er bod llawer o lywodraethwyr yn gweld y cyngor yn hawdd i'w ddeall, dim ond tua hanner ohonynt a oedd yn teimlo bod cyfathrebu'n dryloyw o ran dyraniadau, dyfarniadau cyflog a chyhoeddiadau grantiau. Mynegodd cyrff llywodraethol bryderon bod gwybodaeth hwyr neu anghyflawn yn eu hatal rhag cynnig goruchwyliaeth effeithiol a rhag cynllunio staffio neu flaenoriaethau gwella yn hyderus.

Roedd arweinwyr mewn ysgolion yn gwerthfawrogi eglurder cyfathrebu ynghylch materion gweithredol, ond tynnwyd sylw at wendidau mewn cymorth strategol. Crybwyllodd llawer ohonynt fod cyngor yn canolbwyntio'n bennaf ar sicrhau bod cyllidebau'n gytbwys a bod diffygion ariannol yn cael eu rheoli, yn hytrach nag ar gefnogi cynaliadwyedd ariannol hirdymor neu gysylltu penderfyniadau ariannol â blaenoriaethau gwella. Fe wnaethant esbonio eu bod yn cael eu hatgoffa am ffurflenni monitro, ond eu bod yn cael cyfleoedd cyfyngedig i archwilio risgiau ariannol tymor canolig neu senarios fforddiadwyedd y cwricwlwm gyda swyddogion.

Lle'r oedd swyddogion cyllid, adnoddau dynol a swyddogion gwella ysgolion yn gweithio ar y cyd, roedd ysgolion yn mynegi mwy o foddhad. Roedd y dulliau 'amlasiantaeth' hyn yn helpu ysgolion i ddeall goblygiadau ehangach penderfyniadau ac yn cynnig cymorth cydlynol yn ystod cyfnodau o newid. Crybwyllodd ysgolion yn yr ychydig o awdurdodau sydd â modelau integredig fod sgysiau'n fwy strategol, bod risgiau'n cael eu nodi'n gynharach a bod cymorth yn fwy cyson. I'r gwrthwyneb, mewn awdurdodau lle'r oedd gwasanaethau'n gweithredu ar eu pen eu hunain, roedd negeseuon weithiau'n groes i'w gilydd neu wedi'u datgysylltu o flaenoriaethau addysgol.

Roedd hyder cyrff llywodraethol yn dibynnu'n fawr ar ansawdd gwybodaeth ysgrifenedig ac argaeledd hyfforddiant. Crybwyllodd llawer o'r llywodraethwyr y siaradom â nhw eu bod yn dibynnu ar y pennaeth neu'r rheolwr busnes i ddehongli dogfennau ariannol ar eu cyfer. Mewn awdurdodau lle'r oedd arweiniad ysgrifenedig yn fanwl, yn hygyrch ac wedi'i ategu gan nodiadau esboniadol, roedd llywodraethwyr yn teimlo'n fwy gwybodus. Mewn rhai eraill, roedd dogfennau technegol neu sylwebaeth gyfyngedig yn lleihau eu gallu i herio'n effeithiol. Roedd ychydig o lywodraethwyr eisiau dysgu proffesiynol mwy cyson i gefnogi eu rôl strategol.

Roedd arweinwyr ysgolion a llywodraethwyr hefyd yn bryderus ynghylch goblygiadau ansicrwydd yn ymwneud ag agweddau ar gynllunio cyllideb. Roedd diwygiadau i gyllidebau dangosol, hysbysiadau hwyr o ddyfarniadau cyflog a chyhoeddiadau anghyson ynghylch grantiau yn golygu bod rhaid i ysgolion ailgynllunio staffio yn aml neu ailystyried camau gweithredu yn erbyn blaenoriaethau gwella. Roedd hyn yn achosi rhwystredigaeth, gwaith ychwanegol a phryderon ynghylch gwneud penderfyniadau a allai fod yn anghynaliadwy yn ddiweddarach. Yn aml, roedd penaethiaid yn esbonio bod ansicrwydd felly yn ei gwneud hi'n anodd rhoi sicrwydd i staff neu gyrff llywodraethol.

Er gwaethaf yr heriau hyn, roedd gan y rhan fwyaf o ysgolion hyder yn uniondeb ac ymrwymiad eu swyddogion cyllid o hyd. Roeddent yn mynegi empathi â'r pwysau yr oedd timau cyllid yn eu hwynebu ac yn cydnabod bod cyhoeddiadau cenedlaethol hwyr yn cyfyngu ar allu'r awdurdod i roi gwybodaeth glir ac amserol. Ym mwyafrif yr achosion, roedd ysgolion yn cydnabod y gwelliannau neu'r newidiadau arfaethedig yr oedd awdurdodau'n ceisio'u gwneud, fel cyhoeddi cyllidebau dangosol yn gynharach, cynyddu'r defnydd o offerynnau digidol neu wella'r arweiniad ysgrifenedig.

Lle'r oedd gan awdurdodau gapasiti tîm cryfach, arweiniad ysgrifenedig cliriach ac wedi'i lunio'n well, a chynllunio integredig ar draws gwasanaethau, roedd ysgolion yn cael cyfathrebu cliriach, mwy cyson a mwy strategol. Fodd bynnag, mewn llawer o awdurdodau, roedd cyfyngiadau o ran capasiti, amseriad hwyr cyhoeddiadau ariannu cenedlaethol a thryloywder anghyson yn parhau i gyfyngu ar effeithiolrwydd cyfathrebu.

Gosod cyllideb a thryloywder

Pa mor dryloyw a chydweithredol oedd prosesau gosod cyllidebau ysgolion?

Ledled Cymru, roedd bron pob awdurdod lleol a gymerodd ran yn gweithredu prosesau gosod cyllideb a oedd wedi'u strwythuro a'u dilyniannu'n glir, ac roedd penaethiaid, rheolwyr busnes a llywodraethwyr yn deall y rhain yn dda, ar y cyfan. O ganlyniad, roedd y broses ei hun yn un agored a thryloyw yn weithdrefnol i ysgolion, fel arfer, hyd yn oed pan roedd ansawdd a chysondeb gwybodaeth yn amrywio ar draws awdurdodau.

Roedd llawer o brofiad ysgolion o osod cyllideb yn adlewyrchu'r cryfderau a'r cyfyngiadau ehangach o ran cyfathrebu ariannol a ddisgrifiwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn. Roedd nodweddion cyffredin ar draws awdurdodau yn cynnwys:

- prosesau gosod cyllideb sydd wedi'u strwythuro'n glir ac sy'n cael eu deall yn dda
- cymorth adeiladol gan swyddogion cyllid, yn seiliedig ar berthnasoedd
- tryloywder ar lefel weithdrefnol, hyd yn oed lle'r oedd eglurder strategol yn wannach
- heriau parhaus yn deillio o amseriad penderfyniadau ariannu cenedlaethol a chamlinelliad rhwng y blynyddoedd ariannol ac academiaidd
- amrywiad rhwng dyfnder a chysondeb cyngor yn gysylltiedig â chapasiti awdurdodau lleol
- mwy o ddibyniaeth ar swyddogion unigol lle'r oedd systemau'n brin o wydnwch

Mewn ychydig iawn o awdurdodau lleol, roedd swyddogion yn cryfhau cydweithio ymhellach trwy hybu prosesau cyffredin ar gyfer ysgolion â phroffiliau tebyg, a oedd yn helpu arweinwyr i ddeall patrymau gwariant cymharol a nodi cyfleoedd realistig i wneud arbedion effeithlonrwydd.

Amseroldeb oedd y prif rwystr rhag tryloywder o hyd. Roedd ychydig dros hanner y llywodraethwyr a gymerodd ran yn yr arolwg yn teimlo bod arweiniad ariannol yn cyrraedd yn ddigon cynnar i'w corff llywodraethol wneud penderfyniadau gwybodus am staffio neu'r cwricwlwm. Nodwyd fod y camaliniad rhwng y flwyddyn ariannol (Ebrill i Fawrth) a'r flwyddyn academiaidd (Medi i Awst) yn peri rhwystredigaeth barhaus, yn enwedig lle'r oedd setliadau hwyr yn creu ansicrwydd yn nhymor y gwanwyn. Er bod awdurdodau lleol yn cydnabod bod rhai agweddau ar amseriad y tu hwnt i'w rheolaeth, nid oedd ychydig ohonynt yn cyfleu safleoedd interim yn glir nac yn darparu modelau cynnar ychwaith i gefnogi cynllunio ysgolion.

Roedd lleiafrif o awdurdodau'n dibynnu'n fawr ar swyddogion unigol neu dimau cyllid bach iawn, a oedd yn effeithio ar ansawdd a dyfnder y cyngor. Yn yr ardaloedd hyn, roedd ysgolion yn gwerthfawrogi parodrwydd swyddogion i helpu, ond yn teimlo bod problemau yn ymwneud â chapasiti yn lleihau ehangder y cymorth a gynigiwyd. O ganlyniad, roedd cydweithio'n llai strategol ac yn canolbwyntio mwy ar sicrhau cydymffurfiaeth weithdrefnol.

Er gwaethaf yr heriau hyn, roedd bron pob awdurdod lleol yn dangos bwriad cryf i fod yn dryloyw ac yn gefnogol. Roedd yr amrywiad yn ymwneud yn bennaf â phrofiad ysgolion a'u hamgyffrediad o'r tryloywder hwnnw. Lle'r oedd cyfathrebu'n amserol, gwybodaeth yn glir a chydweithio wedi'i integreiddio ar draws gwasanaethau, roedd ysgolion yn teimlo eu bod yn cael cymorth da a'i bod yn gallu cynllunio'n fwy hyderus. Lle'r oedd cyfathrebu'n hwyr, yn dameidiog neu'n rhy dechnegol, roedd arweinwyr a llywodraethwyr ysgolion yn dibynnu mwy ar swyddogion unigol i ddehongli'r darlun ariannol sylfaenol.

A oedd ysgolion yn deall sut roedd cyllidebau dirprwyedig yn cael eu cyfrifo, a pha mor gyson oedd fformiwlâu a phrosesau ar draws ALLau?

Roedd bron pob awdurdod lleol yn darparu gwybodaeth ysgrifenedig yn amlinellu egwyddorion bras eu fformiwlâu ariannu ac yn cyhoeddi dogfennau fformiwlâ manwl. Fodd bynnag, mewn llawer o'r awdurdodau yr ymwelwyd â nhw, roedd dealltwriaeth arweinwyr ysgolion o sut roedd cyllidebau dirprwyedig yn cael eu cyfrifo yn anghyson. Yn aml, roedd penaethiaid a rheolwyr busnes yn deall sylfeini lefel uchel eu cyllidebau, ond roeddent yn llai hyderus ynghylch sut roedd ffactorau penodol, yn enwedig anghenion dysgu ychwanegol (ADY), mesurau tlodi, amddiffyniadau ysgolion bach a rhagdybiaethau cyflog cyfartalog, yn cael eu pwysoli a'u diweddarau. Roedd dealltwriaeth ymhlith llywodraethwyr yn fwy cyfyngedig, er bod llawer ohonynt yn dweud eu bod yn deall sefyllfa ariannol eu hysgol.

Roedd amrywiad sylweddol ar draws yr awdurdodau lleol yr ymwelwyd â nhw o ran hirhoedledd eu fformiwlâu ariannu, amseriad a thrylwyrdd eu hadolygiadau diweddaraf, a pha mor aml maent yn ailedrych ar y fformiwlâu hyn. Er bod y rhan fwyaf o awdurdodau'n adolygu eu fformiwlâu o dro i dro, nid oedd llawer ohonynt wedi cwblhau adolygiad sylfaenol ers sawl blwyddyn ac roeddent yn dibynnu ar systemau pwysoli etifeddol o hyd, nad oeddent yn adlewyrchu anghenion disgyblion na strwythurau'r gweithlu mwyach. Lle'r oedd fformiwlâu wedi'u hadolygu'n ddiweddar, roedd elfennau allweddol yn cael eu haddasu'n raddol yn hytrach nag ailedrych arnynt yn gyfannol, a oedd yn ei gwneud hi'n anoddach i arweinwyr ddeall y sail resymegol y tu ôl i ddyraniadau. O ganlyniad, roedd ysgolion yn yr awdurdodau hyn yn fwy tebygol o ystyried bod y fformiwlâ wedi dyddio neu ei bod yn anhryloyw.

Yn gyffredinol, dywedodd arweinwyr eu bod yn ymddiried yn eu timau cyllid o ran y fformiwla, ond nad oeddent yn gallu esbonio'n llawn sut roedd newidynnau allweddol yn cael eu cymhwyso. Roedd y ddibyniaeth hon yn cyfyngu ar eu gallu i gynllunio'n strategol neu brofi senarios amgen, yn enwedig pan roedd pwysau ariannol yn dwysáu. Roedd ysgolion bach neu wledig yn arbennig o bryderus ynghylch tryloywder dulliau cynyddu cyllidebau, fel cyllid ychwanegol wedi'i fwriadu i ddiogelu ysgolion llai, a chynaliadwyedd cyllid lle'r oedd nifer y disgyblion ar y gofrestr yn gostwng.

Lle'r oedd awdurdodau'n adolygu fformiwlâu'n systematig ac yn rhannu sail resymegol glir ar gyfer unrhyw newidiadau, roedd ysgolion yn fwy hyderus ynghylch tegwch y system. Mewn enghreifftiau effeithiol, roedd awdurdodau lleol yn darparu crynodebau mewn iaith glir, yn cynnal sesiynau ymgynghori trwy eu fforwm cyllid ysgolion ac yn cyhoeddi enghreifftiau ymarferol yn dangos effeithiau'r newidiadau arfaethedig i'r fformiwla. Roedd ysgolion yn gwerthfawrogi'r dull hwn oherwydd ei fod yn lleihau ansicrwydd ac yn eu helpu i ragweld goblygiadau ar gyfer modelau staffio a'r cwricwlwm.

Roedd gwahaniaethau o ran dylunio'r fformiwla a phrosesau ledled Cymru yn golygu bod ysgolion tebyg mewn awdurdodau gwahanol weithiau'n wynebu rhagolygon a setliadau ariannol gwahanol iawn. Er bod hyn yn adlewyrchu cyd-destunau a phenderfyniadau polisi lleol, roedd hefyd yn cyfrannu at y farn gyffredin a fynegwyd bod cyllid yn anghyson ledled Cymru. Roedd awdurdodau a oedd yn defnyddio offer meincnodi mewn sefyllfa well i esbonio'r gwahaniaethau hyn, ond dim ond mewn ychydig o achosion yr oedd yr offer hwn yn cael ei ddefnyddio.

At ei gilydd, roedd gan awdurdodau fwriadau tryloyw, ond roedd eglurder a chysondeb gwybodaeth am fformiwlâu yn amrywio'n fawr. Lle'r oedd gwybodaeth yn fanwl, yn hygyrch ac yn cael ei diweddarau'n rheolaidd, roedd gan ysgolion ddealltwriaeth gryfach o sut y cyfrifwyd eu cyllidebau. Lle'r oedd fformiwlâu wedi dyddio neu heb eu hesbonio'n ddigonol, roedd eu dealltwriaeth yn wannach ac roedd ganddynt lai o hyder yn y system.

Astudiaeth achos – Defnyddio Offerynnau Digidol i Gryfhau Tryloywder

Mae Sir Gâr wedi datblygu dangosfwrdd ariannol sy'n galluogi penaethiaid, rheolwyr busnes a llywodraethwyr i weld sefyllfa ariannol eu hysgolion mewn amser real. Mae'r dangosfwrdd yn integreiddio data ariannol, adnoddau dynol a nifer y disgyblion, gan alluogi ysgolion i feincnodi eu perfformiad a nodi pwysau sy'n dod i'r amlwg. Mae cyfarfodydd llywodraethu yn defnyddio'r dangosfwrdd yn rheolaidd i gefnogi craffu a phenderfyniadau. Mae'r dull wedi cryfhau tryloywder ac yn dechrau cyfrannu at wella hyder arweinwyr wrth ddehongli gwybodaeth ariannol.

Sut dylanwadodd dulliau ariannu ôl-16 a niferoedd derbyn disgyblion ar benderfyniadau yn ymwneud â fformiwlâu a chynaliadwyedd hirdymor?

Cafodd dulliau o ariannu dysgwyr ôl-16 a niferoedd derbyn disgyblion ddylanwad sylweddol ar gynaliadwyedd ariannol yr ysgolion uwchradd y cyfarfuom â nhw. Roedd y rhan fwyaf o awdurdodau'n cydnabod bod y model ariannu ôl-16 yn gymhleth ac yn aml yn cael ei gadarnhau'n rhy hwyr i gefnogi penderfyniadau hyderus ar lefel ysgolion. Crybwyllodd ychydig o arweinwyr ysgolion fod eu dyraniadau ôl-16 yn amrywio'n sylweddol o un flwyddyn i'r llall, hyd yn oed pan roedd niferoedd disgyblion yn sefydlog, a bod dyraniadau terfynol yn aml yn cael eu cadarnhau ar ôl gwneud penderfyniadau allweddol o ran staffio. Roedd hyn yn cyfrannu at ansicrwydd ac, mewn ychydig iawn o achosion, addasiadau staffio tymor byr a oedd yn anodd eu gwrthdroi.

Mae ychydig o awdurdodau wedi cymryd camau i sefydlogi dyraniadau ôl-16 trwy gyflwyno modelau dangosol tair blynedd neu ddulliau diogelu cyllidebau i liniaru unrhyw amrywiadau o un flwyddyn i'r llall. Roedd ysgolion â darpariaeth ôl-16 yn gwerthfawrogi'r dulliau hyn gan eu bod yn lleihau anwadalrwydd ac yn caniatáu cynllunio mwy cynaliadwy. Fodd bynnag, nid oedd yr arfer hon yn gyffredin, ac roedd llawer o'r ysgolion hyn yn parhau i brofi amrywiad a oedd yn golygu bod cynllunio cwricwlwm hirdymor yn heriol.

Roedd niferoedd derbyn disgyblion yn chwarae rôl ganolog wrth ddylanwadu ar gyllidebau ysgolion hefyd, yn enwedig mewn ardaloedd sy'n profi dirywiad demograffig. Nododd ychydig o arweinwyr ysgolion fod gostyngiad yn nifer y disgyblion ar y gofrestr yn effeithio'n anghymesur ar ysgolion uwchradd a phob oed, gan grybwyll bod newidiadau bach yn nifer y disgyblion yn cael effaith fawr ar fforddiadwyedd staffio oherwydd strwythur eu fformiwlâ. Mewn ychydig o awdurdodau, roedd ysgolion bach neu wledig yn cael diogelwch ychwanegol i wrthbwysu'r pwysau hyn, ond mewn rhai eraill, nid oedd dulliau diogelu wedi'u hadolygu'n ddiweddar ac nid oeddent yn adlewyrchu'r patrymau cyfredol mwyach.

Roedd awdurdodau lleol yn ymwybodol o'r risgiau ariannol a oedd yn cael eu hachosi gan niferoedd disgyblion sy'n gostwng, ac roedd llawer ohonynt wedi dechrau trafodaethau cynnar ag ysgolion am senarios yn y dyfodol. Yn yr awdurdodau mwyaf effeithiol, roedd timau cyllid yn cydweithio'n agos â chydweithwyr gwella ysgolion i ddadansoddi tueddiadau demograffig a helpu ysgolion i gynllunio'n strategol. Roedd llawer o awdurdodau'n defnyddio rhagamcanion disgyblion aml-flwyddyn i ddangos trywydd cyllidebau yn y dyfodol ac annog gweithredu amserol. Roedd ysgolion yn gweld y dull hwn yn arbennig o ddefnyddiol wrth ystyried newidiadau i strwythurau dosbarthiadau, lefelau staffio neu ddarpariaeth chweched dosbarth. Fodd bynnag, yn rhy aml, nid oedd gan ysgolion ddealltwriaeth glir o sut byddai newidiadau yn niferoedd

disgyblion yn effeithio ar eu cyllid yn y tymor canolig. Roedd ychydig o awdurdodau'n darparu crynodebau blynyddol, ond nid oedd y rhain yn ddigon manwl bob tro i gefnogi modelu senarios. O ganlyniad, roedd ysgolion weithiau'n gwneud penderfyniadau tymor byr nad oeddent yn alinio â thueddiadau demograffig tymor hwy.

Ledled Cymru, roedd dulliau awdurdodau lleol o reoli pwysau ôl-16 a niferoedd disgyblion yn anghyson ac nid oeddent yn cynllunio'n ddigon strategol ar eu cyfer bob tro. Lle'r oedd awdurdodau'n darparu rhagamcanion sefydlog, offerynnau modelu clir a chymorth integredig ar draws gwasanaethau, roedd ysgolion yn fwy hyderus ynghylch cynaliadwyedd. Lle'r oedd gwybodaeth yn hwyr neu lle nad oedd yn ddigon manwl, roedd ysgolion yn cael trafferth cynllunio'n strategol ac yn fwy tebygol o fabwysiadu mesurau adweithiol a oedd yn cynyddu risg dros gyfnod.

Hyfforddiant a llythrennedd ariannol

Pa hyfforddiant sy'n cael ei gynnig a pha mor effeithiol ydyw i benaethiaid, rheolwyr busnes ysgolion a llywodraethwyr?

Roedd y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol yr ymwelom â nhw yn cynnig ystod addas o hyfforddiant ariannol, arweiniad a chymorth o ddydd i ddydd i helpu ysgolion i reoli eu cyllidebau. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd swyddogion cyllid yn hygyrch, yn wybodus ac yn barod i roi cyngor ychwanegol pan fyddai anawsterau'n codi. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cyrff llywodraethol a ymatebodd i'r arolwg fod swyddogion cyllid ar gael pan roedd eu hangen, a chrybwyllodd llawer ohonynt eu bod yn cael arweiniad blynyddol ar gynllunio cyllideb. Y perthnasoedd cadarnhaol hyn oedd yn ffurfio asgwrn cefn gweithredol y cymorth ledled Cymru ac fe'u disgrifiwyd yn gyson fel cryfder allweddol mewn adborth gan awdurdodau lleol ac ysgolion.

Ar draws yr awdurdodau yr ymwelwyd â nhw, roedd yr arlwy hyfforddiant craidd fel arfer yn cynnwys sesiynau ymsefydlu ar gyfer penaeithiaid a llywodraethwyr newydd, a oedd yn ymdrin â phrosesau ariannol hanfodol, cyfrifoldebau dirprwyedig a defnyddio offerynnau cynllunio cyllideb. Roedd y rhan fwyaf ohonynt yn darparu hyfforddiant ar adegau allweddol yn ystod y flwyddyn ariannol, yn aml wedi'i ategu gan nodiadau arweiniad, templedi ac amserlenni cyffredin. Cynhaliwyd gweithdai a sesiynau briffio bob tymor neu hanner tymor, ac roedd llawer o ysgolion yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd hyn i ofyn cwestiynau a chynnal dealltwriaeth gyffredin o'r disgwyliadau.

Mewn awdurdodau lle'r oedd yr hyfforddiant yn fwyaf effeithiol, roedd cymorth wedi'i strwythuro'n dda ac yn ymatebol. Roedd yr awdurdodau hyn yn darparu hyfforddiant penodol i'r rôl ar gyfer rheolwyr busnes ysgolion (RhBY) a staff ysgolion, a oedd yn aml yn gwasanaethu fel cyswllt gweithredol rhwng ysgolion a thimau cyllid canolog. Lle'r oedd rhwydweithiau strwythuredig wedi'u sefydlu ar gyfer RhBY, roeddent yn hybu dysgu proffesiynol, datrys problemau ar y cyd a rhannu arfer dda. Roedd y rhwydweithiau hyn yn dueddol o fod wedi'u datblygu'n well yn y sector uwchradd a phob oed, lle'r oedd strwythurau staffio mwy yn cefnogi rolau proffesiynol mwy ffurfiol.

Er gwaethaf y cryfderau hyn, roedd hyfforddiant ledled Cymru yn aml yn fwy gweithredol nag yn strategol. Roedd llawer o raglenni'n canolbwyntio ar gydymffurfio, fel llywio rheoliadau ariannol, llenwi ffurflenni neu ddeall strwythurau codio yn hytrach nag ar ddatblygu'r cymwyseddau strategol dyfnach sydd eu hangen ar gyfer cynllunio ariannol cynaliadwy. Roedd canlyniadau arolygon yn atgyfnerthu'r canfyddiad hwn, gyda dim ond lleiafrif o lywodraethwyr yn dweud bod hyfforddiant ariannol yn hynod effeithiol, wedi'i ategu gan sylwadau bod y cynnwys y teimlo'n generig, yn rhy dechnegol ac yn brin o her ariannol. Nododd llawer o'r llywodraethwyr y siaradom â

nhw, er eu bod yn deall prosesau cyllidebu, eu bod yn teimlo'n llai hyderus wrth werthuso gwerth am arian, asesu fforddiadwyedd hirdymor neu gwestiynu penderfyniadau gwario.

Roedd amseroldeb gwybodaeth hefyd yn effeithio ar effeithiolrwydd hyfforddiant. Nododd lleiafrif o gyfranogwyr fod arweiniad ar y gyllideb neu wybodaeth am grantiau yn aml yn cyrraedd yn hwyr neu'n newid yn ystod y cylch cynllunio. Roedd hyn yn cyfyngu ar ddefnyddioldeb hyfforddiant cysylltiedig ac yn achosi i ysgolion wneud penderfyniadau gochelgar, tymor byr. Roedd swyddogion yn cydnabod y pwysau hyn, gan grybwyll oedi mewn dyraniadau cenedlaethol neu gymhlethdod gweinyddol ffrydiau grant lluosog.

At ei gilydd, er bod y rhan fwyaf o awdurdodau'n darparu ystod addas o hyfforddiant ac arweiniad ariannol, roedd eu heffeithiolrwydd yn anghyson. Roedd y system yn cefnogi cydymffurfiaeth yn dda, ond nid oedd yn datblygu'n gyson y medrau arweinyddiaeth ariannol sydd eu hangen i gynllunio'n strategol, dehongli risgiau ariannol cymhleth na rheoli cyllidebau mewn modd cynaliadwy.

Astudiaeth achos – Meithrin Gallu Ariannol ar draws Rolau Arweinyddiaeth

Mae Cyngor Sir Ceredigion wedi datblygu rhaglen strwythuredig o ddysgu proffesiynol ariannol sy'n ymateb i anghenion gwahanol ysgolion. Mae gweithdai targedig yn cynorthwyo arweinwyr ysgolion cynradd bach i ddeall eu heriau ariannol a rhannu atebion. Caiff penaeithiaid newydd a phenaethiaid dros dro sesiwn ymsefydlu a hyfforddiant teilwredig yn yr ysgol gan swyddogion cyllid, sy'n canolbwyntio ar ddehongli adroddiadau a chysylltu gwariant â blaenoriaethau. Mae llywodraethwyr a rheolwyr busnes yn elwa ar fforymau tymhorol a sesiynau briffio teilwredig. Mae'r dull hwn wedi cryfhau hyder ymhlith arweinwyr a llywodraethwyr, lleihau dibyniaeth ar swyddogion canolog a chefnogi penderfyniadau mwy strategol ar lefel yr ysgol.

Sut caiff hyfforddiant ei werthuso a'i wella, yn ôl yr angen?

Roedd gwerthuso hyfforddiant ariannol yn amrywio'n fawr ar draws awdurdodau ac, mewn llawer o achosion, nid oedd wedi'i ddatblygu'n ddigonol o hyd. Roedd lleiafrif o awdurdodau wedi dechrau gwerthuso eu rhaglenni'n fwy systematig, gan gasglu adborth gan gyfranogwyr a defnyddio'r wybodaeth hon i fireinio cynnwys, amseriad a dull cyflwyno cyrsiau. Roedd yr awdurdodau hyn yn casglu data presenoldeb, adborth strwythuredig neu dasgau myfyriol byr i fesur hyder a dealltwriaeth cyfranogwyr. Yn yr achosion hyn, crybwyllodd arweinwyr fod yr hyfforddiant yn teimlo'n fwy perthnasol ac ymatebol i'w hanghenion.

Mewn llawer o awdurdodau lleol, roedd arferion gwerthuso yn sylfaenol ac wedi'u cyfyngu'n bennaf i arolwg boddhad neu adborth anffurfiol. Ychydig iawn o awdurdodau a oedd yn asesu sut roedd hyfforddiant wedi effeithio ar hyder ac wedi gwella penderfyniadau ariannol dros gyfnod. Roedd hyn yn golygu nad oedd awdurdodau'n aml yn gallu penderfynu pa elfennau o hyfforddiant oedd yn fwyaf effeithiol, ble'r oedd bylchau o hyd neu sut roedd anghenion cyfranogwyr wedi esblygu dros gyfnod. O ganlyniad, roedd cydlyniad a datblygiad strategol yr arlwy hyfforddiant ledled Cymru wedi'u cyfyngu.

Lle'r oedd hyfforddiant yn cael ei werthuso, roedd yn dueddol o ganolbwyntio ar ymatebion uniongyrchol yn hytrach na gwelliannau cynaliadwy mewn arfer. Ychydig iawn o awdurdodau lleol oedd yn cysylltu gwerthuso hyfforddiant â monitro yn seiliedig ar risg, prosesau adfer diffygion ariannol neu weithgareddau gwella ysgolion ehangach.

Roedd gweithio trawsadrannol a oedd yn cysylltu cyllid, adnoddau dynol a gwella ysgolion wedi'i hen ymsefydlu mewn lleiafrif o awdurdodau ac yn cynnig potensial ar gyfer gwerthuso mwy integredig. Roedd yr awdurdodau hyn yn fwy tebygol o gydnabod pwysigrwydd sicrhau bod hyfforddiant ariannol yn alinio â chynllunio'r cwricwlwm, rheoli'r gweithlu a nodau strategol tymor hwy. Fodd bynnag, roedd dulliau integredig felly yn parhau i fod yn enghreifftiau ynysig yn hytrach nag yn batrwm cenedlaethol cytûn.

At ei gilydd, mae gwerthuso hyfforddiant yn faes i'w wella. Er bod awdurdodau fel arfer yn monitro presenoldeb ac ymgysylltiad, dim ond ychydig iawn ohonynt a oedd yn casglu tystiolaeth bod hyfforddiant wedi meithrin y llythrennedd ariannol strategol sydd ei angen i arwain a llywodraethu ysgolion yn effeithiol. Roedd hyn yn cyfyngu ar eu gallu i addasu darpariaeth yn systematig neu sicrhau bod hyfforddiant yn datblygu gallu ariannol yn gyson ar draws rolau a chyfnodau gyrfa.

Astudiaeth achos – Hyfforddiant Ariannol Cyson

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn darparu hyfforddiant ariannol blynyddol i benaethiaid a llywodraethwyr, gan sicrhau dealltwriaeth gyson o gyfrifoldebau statudol, fformiwlâu ariannu a disgwyliadau monitro. Mae'r hyfforddiant yn cynnig enghreifftiau clir ac ymarferol ac yn adlewyrchu prosesau ariannol lleol yr awdurdod. Caiff penaeithiaid newydd fodiwlau ymsefydlu ychwanegol, sy'n eu helpu i ddatblygu hyder cynnar wrth reoli cyllidebau. O ganlyniad, dywed llywodraethwyr eu bod yn gallu craffu ar wybodaeth ariannol yn well ac mae arweinwyr yn disgrifio eglurder gwell yn eu dealltwriaeth o ofnion cydymffurfio.

A oes bylchau mewn gallu ariannol a chymorth i arweinwyr newydd?

Roedd tystiolaeth o arolygon a gwaith maes yn awgrymu bylchau nodedig mewn gallu ariannol ar draws rolau arweinyddiaeth. Roedd hyn yn arbennig o amlwg ymhlith penaethiaid, llywodraethwyr a staff newydd mewn ysgolion llai. Er bod y rhan fwyaf o awdurdodau'n darparu hyfforddiant ymsefydlu, roedd y cymorth a oedd ar gael y tu hwnt i'r cyfnod cychwynnol hwn yn anghyson ac yn aml yn dibynnu ar berthnasodedd lleol, capasiti unigol timau cyllid neu rwydweithiau anffurfiol. O ganlyniad, roedd arweinwyr newydd mewn lleiafrif o awdurdodau'n teimlo eu bod yn cael cymorth da, tra'r oedd eraill yn crybwyll eu bod yn teimlo nad oeddent wedi'u paratoi'n ddigonol ar gyfer yr agweddau ariannol ar eu rolau.

Roedd canfyddiadau arolygon a chyfweliadau'n dangos bod llawer o lywodraethwyr yn brin o hyder o hyd wrth graffu ar wybodaeth ariannol neu herio penderfyniadau gwario yn effeithiol. Disgrifiodd lleiafrif ohonynt fod hyfforddiant yn rhy generig neu nad oedd wedi'i deilwra i gymhlethdodau cyllidebau ysgolion. Ar gyfer penaethiaid a rheolwyr busnes, roedd bylchau yn eu gallu yn aml yn ymwneud â chynllunio ariannol tymor canolig, deall y ffactorau sy'n rheoli costau neu werthuso goblygiadau ariannol penderfyniadau yn ymwneud â staffio a'r cwricwlwm.

Effeithiwyd yn arbennig ar ysgolion cynradd llai. Nid oedd gan lawer ohonynt gapasiti rheoli busnes penodedig, gan adael penaethiaid i reoli cyfrifoldebau ariannol cymhleth ochr yn ochr â dyletswyddau arweinyddiaeth ehangach a'u cyfrifoldebau addysgu. Mewn awdurdodau lle'r oedd rhwydweithiau rheolwyr busnes yn gryfach, lliniarwyd y bylchau hyn trwy gymorth gan gymheiriaid, rhannu arfer a datrys problemau ar y cyd. Fodd bynnag, roedd y gallu i fanteisio ar y rhwydweithiau hyn yn anghyson ac yn llai cyffredin ymhlith ysgolion cynradd.

Roedd swyddogion yn cydnabod yr anghydraddoldebau hyn ac yn tynnu sylw at y pwysau sy'n wynebu arweinwyr newydd, yn enwedig lle'r oedd heriau ariannol yn ddifrifol neu lle'r oedd ysgolion yn gweithredu mewn diffyg ariannol parhaus. Roedd llawer o awdurdodau'n darparu cymorth targedig fel mentora ychwanegol, sesiynau teilwredig neu fonitro mwy cyson, ond nid oedd yr arferion hyn yn rhai cyffredinol.

At ei gilydd, er bod cyngor gweithredol gan dimau cyllid yn gryf, roedd bylchau mewn gallu ariannol strategol ar draws y system. Roedd y bylchau hyn yn fwyaf amlwg ymhlith arweinwyr a llywodraethwyr newydd ac yn arbennig o amlwg mewn lleoliadau â gallu cyfyngedig i fanteisio ar arbenigedd ariannol arbenigol.

Monitro, risg ac ymyrraeth

Pa mor effeithiol mae awdurdodau lleol yn monitro cyllidebau ysgolion ac yn nodi risgiau'n gynnar?

Roedd y rhan fwyaf o awdurdodau wedi sefydlu trefniadau systematig i fonitro cyllidebau ysgolion ac roedd llawer ohonynt wedi nodi pwysau ariannol yn gynnar. Yn y rhan fwyaf o awdurdodau, roedd ysgolion yn mynychu cyfarfodydd â swyddogion cyllid o leiaf bob tymor neu hanner tymor ac, ym mwyafrif yr achosion, roedd y trafodaethau hyn hefyd yn cynnwys staff adnoddau dynol a gwella ysgolion. Fel arfer, roedd y cyfarfodydd hyn yn dilyn fformat strwythuredig, wedi'i gefnogi gan dempledi cyffredin neu adroddiadau monitro, ac yn galluogi ysgolion i adolygu eu sefyllfa ariannol. Roedd y rhan fwyaf o lywodraethwyr yn teimlo eu bod yn gallu manteisio ar gymorth gan yr awdurdod lleol, yn ôl yr angen, gan adlewyrchu cyfathrebu cryf a pherthynas adeiladol rhwng ysgolion a thimau cyllid.

Ledled Cymru, roedd llawer o awdurdodau'n dangos ymrwymiad clir i nodi risg ariannol yn gynnar, er bod soffistigeiddrwydd eu dulliau'n amrywio. Yn gyffredinol, roedd awdurdodau'n defnyddio offerynnau rhagfynegol fel dangosfyrddau, systemau graddio Coch Melyn Gwyrdd neu baneli risg amlasiantaeth i olrhain pwysau sy'n dod i'r amlwg. Roedd yr offerynnau hyn yn rhoi golwg hygyrch i swyddogion ar gronfeydd wrth gefn ysgolion, diffygion rhagamcanol a data cyd-destunol. Yn yr enghreifftiau cryfaf, roedd gwybodaeth ariannol yn cael ei dadansoddi ochr yn ochr â dangosyddion addysgol, data am staff a blaenoriaethau gwella ysgolion. Roedd hyn yn caniatáu i swyddogion ddeall yn gliriach effaith penderfyniadau ariannol ar brofiadau disgyblion a chynllunio'r cwricwlwm.

Mewn lleiafrif o awdurdodau, roedd nodi'n gynnar yn dibynnu mwy ar arbenigedd swyddogion, perthnasoedd proffesiynol a chyfathrebu rheolaidd â phenaethiaid, nag ar offerynnau dadansoddol. Er bod hyn yn helpu i feithrin ymddiriedaeth ac yn cynnig gwybodaeth gyd-destun fanwl, roedd hefyd yn golygu nad oedd canfod risgiau'n systematig ar draws pob ysgol yn gyson. Mewn lleiafrif o awdurdodau lleol, roedd swyddogion yn dibynnu'n fawr ar batrymau gwario hanesyddol neu drafodaethau blaenorol ag arweinwyr ysgolion. Roedd hyn yn cyfyngu ar eu gallu i ragweld pwysau a oedd yn dod i'r amlwg, yn enwedig y rhai yn ymwneud â gostyngiad yn nifer y disgyblion ar y gofrestr, galw am ADY neu newidiadau i strwythurau staffio.

Er bod y rhan fwyaf o awdurdodau'n casglu ac yn monitro data ariannol yn rheolaidd, ym mwyafrif yr achosion, roedd eu gallu i ragweld risg yn gywir wedi'i gyfyngu gan ddifffyg systemau integredig. Ychydig o awdurdodau oedd â'r seilwaith technegol i alinio data ariannol, adnoddau dynol a gwella ysgolion mewn un lle. O ganlyniad, roedd

swyddogion yn aml yn adolygu'r setiau data hyn ar wahân, gan leihau cyfleoedd i driongli gwybodaeth.

Er gwaethaf yr heriau hyn, roedd pocedi o arfer arloesol a hynod effeithiol. Yn yr awdurdodau hyn, roedd dulliau 'amlasiantaeth' yn galluogi swyddogion o wasanaethau gwahanol i gyfarfod yn rheolaidd, rhannu mewnwelediadau a chytuno ar gymorth cydlynol ar gyfer ysgolion bregus. Mewn awdurdodau eraill, roedd systemau dangosfwrdd yn caniatáu i swyddogion olrhain risg ariannol ochr yn ochr â phresenoldeb, niferoedd disgyblion a phryderon gwella ysgolion, gan alluogi trafodaethau cynharach â phenaethiaid a llywodraethwyr. Mewn ychydig o awdurdodau, roedd cyfathrebu rhagweithiol, adolygiadau tymhorol rheolaidd a disgwyliadau clir yn helpu i gynnal niferoedd isel o ysgolion mewn diffyg ariannol.

At ei gilydd, roedd awdurdodau lleol yn monitro cyllidebau ysgolion yn rheolaidd ac yn cynnal perthnasoedd cadarnhaol ag ysgolion. Fodd bynnag, roedd ansawdd a chysondeb yn amrywio o ran nodi risgiau'n gynnar. Roedd y rhan fwyaf o awdurdodau'n monitro'n rheolaidd, ond nid oeddent yn defnyddio offerynnau dadansoddol na systemau data integredig i nodi gwendidau hirdymor yn hyderus. Roedd hyn yn golygu mai dim ond rhai ysgolion oedd yn dod i sylw'r awdurdod pan roedd diffygion ariannol eisoes yn datblygu, yn hytrach nag ar gam cynharach, ataliol.

Pa mor effeithiol mae awdurdodau lleol yn cynorthwyo ac yn ymyrryd pan fydd ysgolion yn wynebu anawsterau ariannol?

Roedd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn cynnig cymorth cefnogol a chydweithredol, yn gyffredinol, i ysgolion a oedd yn wynebu anawsterau ariannol. Roedd llawer ohonynt yn cynorthwyo ysgolion â diffygion gwirioneddol neu ragamcanol i lunio cynllun adfer diffyg tair blynedd, ac roedd y cynlluniau hyn fel arfer yn cael eu hadolygu trwy gyfarfodydd bob tymor neu hanner tymor. Fel arfer, roedd trafodaethau'n canolbwyntio ar opsiynau i sefydlogi cyllidebau, mireinio strwythurau staffio neu ddefnyddio grantiau'n well. Lle'r oedd swyddogion cyllid, partneriaid adnoddau dynol ac ymgynghorwyr gwella ysgolion yn cydweithio â'i gilydd, roedd cymorth wedi'i gydlynu'n well ac yn fwy effeithiol wrth fynd i'r afael ag achosion sylfaenol yr anawsterau. Mewn awdurdodau eraill, roedd categoreiddio risg ariannol ysgolion mewn modd strwythuredig yn helpu swyddogion i ddyrannu cymorth mewn modd cymesur a sicrhau bod ysgolion yn cael monitro ychwanegol, yn ôl yr angen.

Roedd canfyddiadau arolygon yn ategu'r darlun hwn o berthnasoedd adeiladol. Wrth wynebu diffyg mewn cyllidebau, dywedodd llawer o lywodraethwyr fod cyngor yr awdurdod lleol yn glir ac yn ddealladwy, ac roedd llawer o gyrff llywodraethol yn gwerthfawrogi argaeledd swyddogion a'u parodrwydd i gynnig cyngor ar fyr rybudd. Dywedodd penaethiaid yn aml fod swyddogion cyllid yn hawdd mynd atynt ac yn

ymatebol, a'u bod yn gwerthfawrogi parhad y cymorth yn ystod cyfnodau heriol.

Fodd bynnag, roedd ansawdd a dyfnder strategol cymorth yn amrywio'n sylweddol ledled Cymru. Mewn llawer o awdurdodau, roedd swyddogion cyllid yn canolbwyntio'n bennaf ar fonitro cyllidebau'n dechnegol yn hytrach nag ar gynllunio ariannol tymor hwy. Yn aml, roedd cymorth yn canolbwyntio ar ddod o hyd i arbedion uniongyrchol neu sicrhau cydymffurfiaeth, yn hytrach nag ar fodelu senarios gwahanol o ran staff neu'r cwricwlwm. O ganlyniad, roedd ysgolion weithiau'n gwneud penderfyniadau tymor byr nad oeddent yn cyd-fynd â'u blaenoriaethau gwella ehangach.

Lle'r oedd diffygion ariannol yn parhau, roedd llawer o awdurdodau'n cynyddu eu hymglymiad trwy fwy o fonitro ac ymyrraeth fwy ffurfiol. Yn yr awdurdodau mwyaf effeithiol, roedd ymyrraeth wedi'i haenu yn ôl lefel y risg. Roedd ysgolion yng nghyfnodau cynnar anhawster ariannol yn cael eu monitro'n fanylach a chynghor targedig, tra bod ysgolion â diffygion ariannol mwy difrifol neu barhaus yn destun adolygiad amlasiantaeth ac, mewn rhai achosion, goruchwyliaeth llywodraethu ffurfiol. Roedd hyn yn helpu i sicrhau bod ymyrraeth yn cynyddu, yn ôl yr angen, yn osgoi llwyth gwaith diangen ac yn cefnogi camau cynharach i sefydlogi cyllidebau.

Nid oedd gan awdurdodau llai effeithiol fframweithiau clir ar gyfer cynyddu cymorth. Yn yr achosion hyn, roedd ymyrraeth yn dibynnu'n fawr ar farn swyddogion, ac nid oedd disgwyliadau'n cael eu cyfleu'n glir i ysgolion bob tro. O ganlyniad, nid oedd ychydig iawn o ysgolion yn cael eu herio mewn modd amserol nac yn ddigon pendant, ac roedd diffygion ariannol yn parhau'n hwy nag yr oedd ei angen. I'r gwrthwyneb, mewn ychydig iawn o achosion, crybwyllodd ysgolion fod ymyrraeth yn teimlo'n rhy llym neu wedi'i lywio gan gydymffurfiaeth, heb roi digon o sylw i gyd-destun addysgol yr ysgol na'i blaenoriaeth gwella.

Crybwyllodd ysgolion a oedd yn wynebu diffygion ariannol heriau o ran amseroldeb ac eglurder arweiniad, hefyd. Roedd hysbysiadau hwyr ynghylch y gyllideb, dyraniadau grant diwygiedig ac oedi wrth gael cymeradwyaeth ar gyfer newidiadau staffio yn cyfyngu ar allu ysgolion i roi camau adfer ar waith yn brydlon. Mewn lleiafrif o awdurdodau yr effeithiwyd arnynt gan brinder staff mewn timau cyllid, cafodd ysgolion brofiad o fylchau rhwng cyfarfodydd, gan leihau cyfleoedd ar gyfer ymyrraeth gynnar a chyfyngu ar effaith cymorth.

Pan roedd diffygion ariannol yn parhau dros gyfnod, roedd awdurdodau lleol yn defnyddio ystod o ddulliau i gryfhau her. Mewn llawer o awdurdodau lleol, roedd yn ofynnol i ysgolion fynychu cyfarfodydd adfer gydag uwch swyddogion cyllid neu arweinwyr addysg, gan gynnig cyfleoedd ar gyfer craffu mwy cadarn a phenderfyniadau mwy eglur. Mewn ychydig iawn o achosion, cymhwyswyd cosbau ffurfiol fel atal dirprwyo'r gyllideb. Roedd y mesurau hyn yn cael eu defnyddio'n gynnil ond, lle

cawsant eu cymhwyso, roeddent yn effeithiol yn gyffredinol o ran egluro disgwyliadau a chyflymu adferiad.

Roedd tystiolaeth yn dangos bod cymorth ac ymyrraeth yn fwyaf effeithiol pan roeddent wedi'u cydlynu'n dda a phan roedd ysgolion yn cael negeseuon cyson gan swyddogion cyllid, adnoddau dynol a gwella ysgolion. Yn yr achosion mwyaf effeithiol, crybwyllodd ysgolion fod ymyrraeth wedi'u helpu i ddeall achosion sylfaenol eu hanawsterau ariannol a chymryd camau strategol, gan gynnwys ailstrwythuro modelau staffio ac arweinyddiaeth, adolygu cynlluniau'r cwricwlwm neu ddefnyddio grantiau'n fwy effeithiol. Lle'r oedd cyfathrebu'n aneglur, cyngor yn anghyson neu oedi wrth gymeradwyo, roedd ymyrraeth yn llai effeithiol ac roedd oedi wrth adfer.

At ei gilydd, roedd awdurdodau lleol yn dangos ymrwymiad i gefnogi ysgolion trwy anawsterau ariannol ac ymyrryd lle'r oedd diffygion ariannol yn parhau. Fodd bynnag, roedd amrywiad o ran amseroldeb, aliniad strategol a gallu dadansoddol yn cyfyngu ar effaith gyffredinol y cymorth a'r ymyrraeth. Awdurdodau a oedd yn cyfuno cymorth adeiladol â her gymesur, ac yn seilio penderfyniadau ar ddadansoddiad clir o ddata ariannol ac addysgol, oedd yn fwyaf effeithiol wrth helpu ysgolion i sefydlogi eu sefyllfa ariannol. Roedd goruchwyliaeth o gyllidebau ysgolion yn fwyaf amlwg mewn trefniadau uwchraddio, gan gynnwys trafodaethau adfer a oedd yn cynnwys uwch swyddogion ac aelodau'r Cabinet.

Defnyddio grantiau targedig

Pa mor effeithiol oedd awdurdodau lleol yn cefnogi'r defnydd strategol o grantiau fel y GDD?

Grantiau targedig fel y grant datblygu disgyblion (GDD) oedd y prif ddull yr oedd Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn ei ddefnyddio o hyd i fynd i'r afael ag effaith tlodi a chefnogi gwella ysgolion. Mae llawer o'r awdurdodau a gymerodd ran wedi datblygu systemau clir a chadarn i reoli'r grantiau hyn. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd codio ariannol, awdurdodi a gweithdrefnau cysoni yn gadarn ac roedd ysgolion yn deall yr amodau defnyddio. Cryfhaodd awdurdodau lleol eu prosesau cydymffurfio trwy dempledi cyffredin, cyswllt rheolaidd rhwng swyddogion cyllid ac addysg, ac arweiniad ysgrifenedig hygyrch.

Roedd canlyniadau'r arolwg i gyrrff llywodraethol yn dangos bod mwyafrif yr ymatebwyr yn gwerthfawrogi'r cymorth hwn, gydag ymatebwyr yn dweud bod swyddogion awdurdodau lleol ar gael pan roedd heriau ariannol yn codi, a'u bod yn gweld y cyngor yn hawdd ei ddeall. Roedd yr hyder hwn yn adlewyrchu eglurder y wybodaeth a ddarparwyd a natur ymarferol y cymorth. Roedd llawer o awdurdodau'n cyhoeddi amserlenni grantiau, nodiadau arweiniad ac enghreifftiau o wariant cymwys er mwyn helpu ysgolion i gynllunio. Roedd y mwyafrif ohonynt hefyd yn defnyddio cyfarfodydd adolygu neu offerynnau ar-lein i olrhain dyraniadau a chynnal tryloywder.

Lle'r oedd arfer yn fwyaf effeithiol, roedd awdurdodau lleol yn mynd y tu hwnt i gydymffurfiaeth i sicrhau bod defnydd grantiau yn cyd-fynd â blaenoriaethau gwella. Er enghraifft, roedd ychydig o awdurdodau lleol yn integreiddio grantiau addysg lleol â chynlluniau gwella ac yn symleiddio gofynion adrodd, tra'r oedd awdurdodau eraill yn defnyddio dangosfyrddau neu fforymau i fonitro gwariant ac annog her. Roedd yr enghreifftiau hyn yn dangos sut mae systemau cydlynol a chydweithio ar draws timau yn helpu ysgolion i ddefnyddio grantiau'n fwy strategol a lleihau'r baich gweinyddol. Fodd bynnag, ledled Cymru, mae'r lefel hon o integreiddio yn amrywio. Mewn llawer o awdurdodau, roedd grantiau fel y GDD yn cael eu trin fel ffrydiau ariannol ar wahân o hyd, yn hytrach nag yn adnoddau a allai ategu cynlluniau gwella. Yn aml, nid oedd cysylltiadau strategol rhwng timau cyllid a gwasanaethau gwella ysgolion wedi'u datblygu'n ddigonol. Nid oedd gan leiafrif o awdurdodau ddigon o gapasiti neu arbenigedd dadansoddol i gynnig cyngor cynllunio manwl i ysgolion y tu hwnt i arweiniad ar gymhwysedd. O ganlyniad, roedd ysgolion yn aml yn penderfynu sut i ddefnyddio grantiau gyda deialog strategol gyfyngedig, gan leihau'r potensial ar gyfer dysgu neu alinio ar draws y system.

Pa mor effeithiol oedd awdurdodau lleol yn monitro effaith grantiau?

At ei gilydd, roedd llawer o awdurdodau lleol yn monitro cydymffurfiaeth yn effeithiol ond yn gwerthuso effaith yn llai trylwyr. Roedd awdurdodau'n cynnal llwybrau archwilio clir ac yn sicrhau bod ysgolion yn bodloni'r amodau sylfaenol ar gyfer defnyddio grantiau, ond dim ond tua hanner a grybwyllodd fod eu monitro'n cynnwys unrhyw ddadansoddiad o ddeilliannau neu werth am arian. Mewn llawer o achosion, roedd awdurdodau'n dibynnu ar hunanwerthusiad ysgolion i ddangos effeithiolrwydd. Roedd lleiafrif o awdurdodau'n gofyn am ddatganiadau effaith diwedd blwyddyn byr, ond nid oedd y rhain yn cael eu cyfosod i lunio golwg ar yr awdurdod cyfan, fel arfer.

Roedd tystiolaeth o waith maes a dadansoddi arolygon yn cadarnhau bod monitro wedi'i seilio'n bennaf ar brosesau o hyd, yn hytrach na chanolbwyntio ar ddeilliannau. Roedd swyddogion yn disgrifio eu prif rôl fel sicrhau bod arian yn cael ei wario'n gywir, yn hytrach nag asesu a oedd cynnydd disgyblion wedi gwella. Roedd y ffocws cul hwn yn cyfyngu ar allu ysgolion ac awdurdodau lleol i ddeall pa ddulliau oedd yn gweithio orau neu'n cynrychioli gwerth da am arian. Dim ond lleiafrif o awdurdodau oedd yn ceisio cysylltu data gwariant â dangosyddion deilliannau disgyblion fel mesurau cynnydd, presenoldeb neu les.

Roedd nifer y grantiau bach, tymor byr yn gwaethygu'r broblem hon. Roedd llawer o awdurdodau'n rheoli nifer o ffrydiau ariannu sy'n gorgyffwrdd, bob un ohonynt ag amserlenni adrodd gwahanol. Roedd y cymhlethdod hwn yn tynnu sylw oddi wrth werthuso ac yn annog monitro ar sail cydymffurfiaeth. Dechreuodd lleiafrif o awdurdodau gydgrynhoi grantiau tebyg mewn cyllidebau rhaglenni ehangach, ond nid oedd hyn yn gyffredin.

Roedd ymatebion cyrff llywodraethol yn adlewyrchu'r canfyddiadau hyn. Er i lawer ohonynt ddweud bod eu hysgol yn gwerthuso effaith grantiau targedig, datgelodd sylwadau amrywiad sylweddol o ran trylwyrdd y gwerthusiadau hynny, gan eu bod yn aml yn canolbwyntio ar allbynnau, fel amser staff neu lefelau gweithgarwch, yn hytrach na deilliannau i ddisgyblion. Dim ond lleiafrif o lywodraethwyr a grybwyllodd eu bod yn cael adroddiadau cryno, sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau yn cysylltu gwario grantiau â chynnydd disgyblion.

At ei gilydd, roedd gan awdurdodau lleol systemau effeithiol i sicrhau cydymffurfiaeth, ond roeddent yn brin o ddulliau systematig i werthuso'r effaith addysgol. Yn gyffredinol, roedd swyddogion yn cydnabod yr angen i ddatblygu fframwaith cliriach ar gyfer asesu'r gwahaniaeth yr oedd grantiau yn ei wneud i ddisgyblion y mae effeithiau tlodi yn effeithio arnynt, ond roedd gallu dadansoddol ac amser cyfyngedig yn cyfyngu ar gynnydd.

A oedd cymorth gan awdurdodau lleol yn galluogi gwariant a oedd yn arwain at yr effaith fwyaf ar ddeilliannau disgyblion?

Mae tystiolaeth o ymweliadau, wedi'i chefnogi gan ymatebion i'r arolygon, yn dangos bod llawer o awdurdodau lleol yn cynnig cyngor prydlon ac ymarferol i ysgolion ac, yn aml, roedd y cymorth hwn yn eu galluogi i gynnal darpariaeth ar gyfer disgyblion bregus. Mewn llawer o awdurdodau, roedd ysgolion yn defnyddio grantiau targedig i ariannu staff allweddol fel cynorthwyyr addysgu, swyddogion ymgysylltu â theuluoedd a gweithwyr bugeiliol. Roedd ysgolion yn gwerthfawrogi'r rolau hyn yn fawr ac, mewn llawer o achosion, roeddent wedi dod yn rhan annatod o ddarpariaeth o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, roedd y patrwm hwn hefyd yn dangos dibyniaeth gynyddol ar grantiau i gynnal staffio craidd. Roedd arweinwyr mewn sawl awdurdod yn cydnabod bod grantiau wedi dod yn hanfodol ar gyfer cynnal gwasanaethau presennol, yn hytrach nag ar gyfer profi dulliau neu arloesiadau newydd.

Roedd diffyg amseroldeb a rhagweladwyedd cyllid yn cyfyngu ar ei effaith. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd dyraniadau cenedlaethol yn cyrraedd awdurdodau'n hwyr yn y flwyddyn ariannol, gan gywasgu cylchoedd cynllunio a gorfodi penderfyniadau adweithiol. Dywedodd tua hanner y llywodraethwyr a ymatebodd i'n harolwg nad oedd cyngor a gwybodaeth am grantiau yn ddigon amserol i gefnogi blaengynllunio. Er bod llawer o awdurdodau'n cyhoeddi ffigurau dangosol yn gynnar yn y flwyddyn galendr, roedd y camliniad rhwng y flwyddyn ariannol a'r flwyddyn academiaidd yn rhwystr strwythurol o hyd. Roedd cyllid hwyr neu ansicr yn lleihau gallu ysgolion i gynllunio ymyriadau cynaledig a allai gyflawni cynnydd mesuradwy yn neilliannau disgyblion.

Roedd y defnydd parhaus o gymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim fel y prif fesur o amddifadedd yn cyfyngu ymhellach ar fanwl gywirdeb wrth dargedu. Roedd ychydig o awdurdodau lleol ac arweinwyr ysgolion yn cwestiynu ei ddibynadwyedd ar ôl cyflwyno darpariaeth prydau ysgol am ddim ar gyfer pob disgybl mewn ysgolion cynradd. Roedd lleiafrif o awdurdodau wedi dechrau archwilio dangosyddion economaidd-gymdeithasol eraill, ond nid oedd un dull cyson.

Er gwaethaf yr heriau hyn, roedd enghreifftiau o arfer gryfach yn dod i'r amlwg. Roedd ychydig o awdurdodau wedi cyflwyno adolygiadau effaith sampl a oedd yn cyfuno data cyllid â thystiolaeth o ddeilliannau disgyblion i nodi arfer effeithiol. Roedd rhai eraill yn cydweithio â'r gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol i hyfforddi penaethiaid i werthuso cost-effeithiolrwydd ymyriadau. Roedd y mentrau hyn yn dangos, lle'r oedd capasiti'n bodoli, y gallai cymorth yr awdurdod lleol ddylanwadu ar benderfyniadau gwariant a oedd yn arwain at ddeilliannau gwell i ddisgyblion. Fodd bynnag, roedd yr enghreifftiau hyn yn gyfyngedig o ran eu cwmbras o hyd ac yn dibynnu'n fawr ar arbenigedd swyddogion unigol, yn hytrach na thrwy fwriad.

Yn gryno, roedd rheoli grantiau targedig ledled Cymru yn weithdrefnol gadarn, ond nid oedd wedi'i ddatblygu'n ddigonol yn strategol. Roedd llawer o awdurdodau'n cefnogi ysgolion yn dda o ran cydymffurfiaeth a chyfathrebu, ond dim ond lleiafrif ohonynt a

oedd yn gwerthuso effaith yn gadarn neu'n defnyddio data i lywio dyraniadau yn y dyfodol. Roedd amseroldeb, darnio a gorddibyniaeth ar grantiau ar gyfer staffio yn parhau i gyfyngu ar welliant. Lle'r oedd awdurdodau'n cysylltu monitro â deilliannau addysgol, roedd dealltwriaeth well o'r hyn a oedd yn gweithio'n dda i gefnogi disgyblion difreintiedig.

Hybu tegwch a chynaliadwyedd

Sut mae awdurdodau lleol yn mynd i'r afael â thegwch mewn penderfyniadau ariannu?

Roedd llawer o awdurdodau lleol yn dangos ymrwymiad moesol a strategol clir i ymwreiddio tegwch yn eu penderfyniadau ariannu ysgolion. Yn gyffredinol, roedd arweinwyr yn cydnabod bod tegwch, tryloywder a rhagweladwyedd yn ganolog i gynnal hyder yn y system ariannu, yn enwedig ar adeg pan roedd costau cynyddol, mwy o anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a dirywiad demograffig yn rhoi ysgolion dan bwysau cynyddol. Roedd yr ymrwymiad hwn yn ymddangos yn rheolaidd mewn cynlluniau corfforaethol, strategaethau gwasanaethau addysg a dogfennau gosod cyllidebau. Fodd bynnag, roedd y graddau y troswyd y bwriad hwn yn arferion ariannu teg, cydlynol a chynaliadwy yn amrywio ledled Cymru.

Roedd y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol a gymerodd ran yn defnyddio fformiwlâu ariannu oedd yn cynnwys elfennau a luniwyd i gefnogi tegwch, fel dyraniadau ar gyfer ADY, anfantais economaidd-gymdeithasol neu wledigrwydd. Yn aml, roedd y trefniadau hyn wedi'u hen sefydlu ac roedd lleiafrif o awdurdodau wrthi'n eu hadolygu neu eu mireinio yn ystod cyfnod y gwaith thematig hwn. Lle'r oedd arfer ar ei chryfaf, roedd awdurdodau'n ailedrych ar eu fformiwlâu ac yn defnyddio tystiolaeth o ddyraniadau blaenorol, adborth gan ysgolion a newidiadau demograffig i lywio addasiadau. Er enghraifft, cyflwynodd ychydig o awdurdodau ddulliau pwysoli newydd neu fireinio methodolegau modelu er mwyn sicrhau bod ysgolion bach, darpariaeth cyfrwng Cymraeg neu glystyrau penodol o ysgolion yn cael cymorth sy'n gymesur â'u hanghenion.

Mae ychydig o'r awdurdodau yr ymwelom â nhw wedi dechrau mabwysiadu dulliau amgen i fesur sut maent yn mesur difreintedd, fel dechrau defnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) i ategu neu ddisodli cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim fel procsi ar gyfer angen economaidd-gymdeithasol. Esboniodd yr awdurdodau hyn fod data MALIC yn darparu darlun ehangach o ddifreintedd cymunedol ac yn helpu i fireinio targedu. I'r gwrthwyneb, roedd awdurdodau a oedd yn parhau i ddibynnu'n fawr ar ddangosyddion unigol weithiau'n cael trafferth dangos sut roedd eu dyraniadau'n adlewyrchu amrywiad mewn patrymau amddifadedd lleol yn gywir. Lle'r oedd hyn yn digwydd, roedd ysgolion yn aml yn cwestiynu tegwch dosbarthu, hyd yn oed pan roedd y bwriadau cyffredinol yn gadarn.

Yn gyffredinol, roedd trafodaethau cyllidebol gyda goblygiadau o ran tegwch yn cael eu trafod trwy fforymau cyllideb ysgolion. Ledled Cymru, roedd y fforymau hyn yn chwarae rôl bwysig wrth gyfryngu penderfyniadau ariannol, gan gynnig cyfle strwythuredig i

gynrychiolaeth o benaethiaid a llywodraethwyr gwestiynu cynigion, tynnu sylw at risgiau a cheisio eglurhad. Ym mwyafrif yr achosion, crybwyllodd cyfranogwyr fod trafodaethau'n adeiladol a bod awdurdodau'n agored i her. Yn yr awdurdodau mwyaf effeithiol, roedd fforymau cyllid yn rhan annatod o benderfyniadau ac yn cael effaith amlwg ar ddyrannu adnoddau. I'r gwrthwyneb, mewn lleiafrif o awdurdodau, roedd fforymau'n gweithredu'n bennaf fel sianeli cyfathrebu yn hytrach na lleoedd lle'r oedd materion yn ymwneud â thegwch yn cael eu trafod neu eu llunio. Roedd yr anghysondeb hwn yn lleihau tegwch a dilysrwydd canfyddedig penderfyniadau ar gyfer ychydig iawn o arweinwyr ysgolion.

At ei gilydd, roedd llawer o awdurdodau'n gwneud ymdrechion rhesymol i ymgorffori ystyriaethau tegwch mewn penderfyniadau ariannu. Fodd bynnag, roedd gwendidau mewn cyfathrebu, defnydd anghyson o ddata ac amrywiad o ran ansawdd yr ymgynghori yn cyfyngu ar y graddau yr oedd ysgolion yn deall ac yn cefnogi'r egwyddorion sy'n sail i'r penderfyniadau hyn. Roedd awdurdodau â phrosesau cliriach, gallu dadansodol cryfach ac arferion ymgysylltu mwy agored yn gallu meithrin ymddiriedaeth yn well a chynorthwyo i ddyrannu adnoddau'n deg.

Sut mae awdurdodau lleol yn sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb yn cael eu hymgorffori'n benodol mewn fformiwlâu, cyngor a phrosesau ymyrraeth?

Roedd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn cynnwys ystyriaethau cydraddoldeb penodol wrth lunio eu fformiwlâu ariannol neu yn y prosesau sy'n cael eu defnyddio i gynghori, herio a chynorthwyo ysgolion sy'n wynebu anawsterau ariannol. Ledled Cymru, roedd awdurdodau'n cydnabod bod bodloni anghenion disgyblion ag ADY, y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol, disgyblion o gefndiroedd ethnig lleiafrifol a'r rhai sy'n cael eu haddysgu mewn ysgolion bach neu wledig yn mynnu cymorth gwahaniaethol. Fodd bynnag, er bod bwriadau eang yn gyson, roedd dyfnder, trylwyredd a thryloywder yr arfer yn amrywio'n fawr.

Mae bron pob un o'r awdurdodau yr ymwelom â nhw yn cynnwys ffactor ADY yn eu fformiwlâu ariannu. Fodd bynnag, roedd digonolrwydd y dyraniadau hyn a'r dulliau a ddefnyddir i'w dosbarthu yn amrywio. Crybwyllodd y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol fod cyllidebau ADY wedi dod yn fwyfwy heriol i'w cynnal wrth i nifer, cymhlethdod a chost lleoliadau unigol gynyddu. Ymatebodd rhai ohonynt yn rhagweithiol trwy sefydlu rolau data ADY arbenigol, gan wella ansawdd data a defnyddio modelu i ragweld y galw yn fwy cywir. Roedd yr awdurdodau hyn yn fwy hyderus bod eu dyraniadau ADY yn adlewyrchu angen gwirioneddol. Roedd awdurdodau eraill yn parhau i ddibynnu ar batrymau gwariant hanesyddol, nad oeddent bob amser yn adlewyrchu anghenion lleol sy'n dod i'r amlwg. Yn yr awdurdodau hyn, roedd y bwlch rhwng cyllidebau dirprwyedig a chost wirioneddol darpariaeth yn creu ansefydlogrwydd ac weithiau'n tanseilio gallu teg i fanteisio ar gymorth i ysgolion â phoblogaethau bach o ddisgyblion.

Nododd ymweliadau ac ymatebion i arolygon fod ystyriaethau cydraddoldeb mewn llawer o awdurdodau yn ymestyn y tu hwnt i fformiwlâu ariannu ac wedi'u hymwreiddio mewn prosesau cynghori ac ymyrryd ehangach. Er enghraifft, pan roedd ysgolion yn mynd i drafferthion ariannol, roedd llawer o awdurdodau'n dadansoddi a oedd yr achosion sylfaenol yn gysylltiedig â chost neu gymhlethdod cefnogi disgyblion difreintiedig neu ddisgyblion ag ADY. Roedd ychydig o baneli traws-swyddogaethol yn cynnwys gwasanaethau cyllid, addysg ac ADY i adolygu achosion mewn modd cyfannol. Roedd y dull hwn yn cefnogi cyfliniad gwell rhwng cyngor ar wella ysgolion, cymorth cynhwysiant a chynllunio ariannol. Mewn lleiafrif o awdurdodau, roedd prosesau ymyrraeth ariannol yn canolbwyntio'n bennaf ar gydymffurfiaeth ac adfer diffyg ariannol, gydag archwiliad cyfyngedig o sut roedd ffactorau yn ymwneud â thegwch yn dylanwadu ar sefyllfa ariannol ysgol.

Roedd y graddau yr oedd awdurdodau'n defnyddio asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb (AEGau) yn amrywio. Yn yr achosion mwyaf effeithiol, roedd AEGau wedi'u hintegreiddio mewn penderfyniadau, yn cynorthwyo arweinwyr i brofi cynigion yn wrthrychol ac yn tynnu sylw at risgiau a allai gael effaith anghymesur ar ysgolion bach, gwledig neu ysgolion â lefelau uchel o ddisgyblion ag ADY, er enghraifft. Yn aml, roedd yr asesiadau hyn yn cael eu rhannu trwy fforymau cyllideb, gan helpu rhanddeiliaid i ddeall goblygiadau newidiadau arfaethedig o ran tegwch. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o awdurdodau, nid oedd AEGau wedi'u datblygu cystal neu nid oeddent yn cael eu defnyddio'n rheolaidd. O ganlyniad, nid oedd rhanddeiliaid yn cael mewnwelediad i sut roedd ystyriaethau cydraddoldeb yn dylanwadu ar benderfyniadau, ac roedd hyn weithiau'n cyfrannu at ganfyddiadau o anghysondeb neu annhegwch.

Roedd cymorth i ddysgwyr ethnig lleiafrifol yn cael ei adlewyrchu'n llai cyson mewn fformiwlâu ariannu, er bod sawl awdurdod yn defnyddio grantiau penodol neu gymorth ar lefel gwasanaethau i fynd i'r afael ag anghenion lleol. Yn yr un modd, roedd ychydig o awdurdodau'n cynnig darpariaeth estynedig ar gyfer ysgolion bach a gwledig, gan gydnabod costau cynyddol cynnal cwricwlwm eang a staffio sefydlog mewn ardaloedd â niferoedd disgyblion sy'n amrywio. Fodd bynnag, crybwyllodd ychydig iawn o ysgolion bach eu bod yn ariannol fregus o hyd, er gwaethaf ymdrechion awdurdodau lleol i fynd i'r afael ag anghysondebau.

Roedd tystiolaeth o'r arolwg i gyrff llywodraethol yn tynnu sylw at y ffaith bod llawer o ymatebwyr o'r farn bod cyngor ariannol gan awdurdodau yn glir ac yn hawdd ei ddeall. Fodd bynnag, disgrifiodd ychydig ohonynt hyfforddiant a oedd yn canolbwyntio'n fanwl ar brosesau technegol yn hytrach nag archwilio sut mae penderfyniadau ariannu'n ymwneud â chwestiynau ehangach cynhwysiant neu gydraddoldeb. Roedd hyn yn cyfyngu ar y graddau y gallai gyrff llywodraethol graffu ar b'un a oedd ystyriaethau

cydraddoldeb wedi'u hymwreiddio'n gyson ar draws penderfyniadau.

Er gwaethaf yr anghysondebau hyn, roedd cynnydd ledled Cymru yn gadarnhaol. Roedd llawer o awdurdodau'n adolygu eu dulliau o ymdrin â chydaddoldeb a thegwch, gan ddiweddarau fformiwlâu, cryfhau gwaith trawsadrannol a datblygu cyfathrebu cliriach â rhanddeiliaid. Roedd awdurdodau oedd yn alinio ystyriaethau tegwch ar draws llunio fformiwlâu, prosesau ymgynghorol a dulliau ymyrryd yn gallu dangos tegwch yn well a chynorthwyo ysgolion i reoli goblygiadau ariannol arfer gynhwysol.

Ar yr un pryd, roedd amrywiad mewn fformiwlâu ariannu lleol ledled Cymru yn golygu y gallai ysgolion tebyg gael setliadau ariannol gwahanol mewn awdurdodau gwahanol. Er bod yr amrywiad hwn yn adlewyrchu penderfyniadau a chyd-destunau lleol, roedd hefyd yn peri pryder i rai ysgolion, a oedd o'r farn bod trefniadau ariannu yn anghyson ledled Cymru.

Sut mae awdurdodau lleol yn cynorthwyo ysgolion â chynllunio ariannol tymor hwy?

Roedd llawer o awdurdodau lleol yn annog ysgolion i gynllunio eu cyllideb dros gyfnod o dair blynedd, er bod cysondeb ac ansawdd y cymorth a roddwyd yn amrywio. Roedd natur tymor byr setliadau cyllid blynyddol, cadarnhad hwyr o grantiau ac ansicrwydd ynghylch lefelau'r gyllideb yn y dyfodol yn cyfyngu ar ddibynadwyedd y cynlluniau hyn. Er gwaethaf y cyfyngiadau hyn, roedd lleiafrif o awdurdodau'n cymryd camau rhagweithiol i gynorthwyo ysgolion â chynllunio ariannol tymor hwy. Er bod llawer o awdurdodau lleol yn darparu dadansoddiad demograffig a modelu, roedd ymgysylltiad ysgolion â'r wybodaeth hon yn amrywio, yn enwedig lle'r oedd ansicrwydd neu bwysau cystadleuol yn annog penderfyniadau tymor byr.

Mae mwyafrif yr awdurdodau wedi datblygu dangosfyrddau ariannol ac offerynnau modelu a oedd yn galluogi ysgolion i brofi senarios gwahanol, archwilio effaith newidiadau staffio ac ystyried tueddiadau demograffig. Mae'r offerynnau hyn yn helpu arweinwyr i gynllunio'n fwy strategol a lleihau dibyniaeth ar benderfyniadau adweithiol tymor byr. Lle'r oedd y dulliau hyn wedi'u sefydlu'n well, crybwyllodd ysgolion fwy o hyder o ran sicrhau bod strwythurau staffio'n cyd-fynd â gofynion y cwricwlwm a chyfrifoldebau cynhwysiant.

Roedd fforymau cyllid yn chwarae rôl bwysig mewn cynllunio tymor hwy. Mewn llawer o awdurdodau lleol, roedd y fforymau hyn yn ystyried goblygiadau posibl newid demograffig, adolygiadau o fformiwlâu ariannu a newidiadau polisi cenedlaethol. Lle'r oedd fforymau'n gryf, roeddent yn creu dealltwriaeth gyffredin o risgiau'r dyfodol ac yn galluogi ysgolion i baratoi'n fwy effeithiol. Yn yr achosion cryfaf, aeth awdurdodau ymhellach trwy ddarparu rhagamcanion aml-flwyddyn dangosol, hyd yn oed lle'r oedd y rhain wedi'u seilio ar ragdybiaethau yn hytrach na dyraniadau a gadarnhawyd. Canfu'r

awdurdodau lleol hyn fod ysgolion yn gallu rheoli ansicrwydd yn well ac osgoi penderfyniadau adweithiol diangen.

Roedd lleiafrif o awdurdodau'n sefydlu partneriaethau ehangach neu drefniadau cydwasanaethau i gefnogi cynllunio. Roedd y rhain yn cynnwys caffael cydweithredol, swyddogaethau rheoli busnes ar y cyd neu waith modelu rhanbarthol. Roedd dulliau felly yn helpu awdurdodau llai i fynd i'r afael â heriau o ran capasiti ac yn galluogi ysgolion i fanteisio ar gymorth mwy arbenigol.

Ledled Cymru, fodd bynnag, roedd amrywiad eang yn y cymorth ar gyfer cynllunio ariannol tymor hwy o hyd. Roedd awdurdodau â mwy o allu dadansoddol, timau arweinyddiaeth sefydlog a pherthnasoedd cryf ag ysgolion yn gallu darparu arweiniad rhagweithiol a strategol gwell. Roedd y rhai a oedd wedi'u cyfyngu gan drosiant staff, systemau cyfyngedig neu lefelau uchel o bwysau ariannol uniongyrchol yn ei chael hi'n anoddach symud y tu hwnt i ddatrys problemau tymor byr.

At ei gilydd, roedd llawer o awdurdodau lleol yn dangos dealltwriaeth well o'r berthynas rhwng cynllunio ariannol tymor hwy, cyflwyno'r cwricwlwm a chynaliadwyedd. Fodd bynnag, nid oedd cynnydd yn gyson ledled Cymru, ac roedd ysgolion mewn sawl awdurdod yn parhau i brofi ansicrwydd a oedd yn cyfyngu ar eu hyder a'u gallu i gynllunio at y dyfodol.

Dulliau a sail y dystiolaeth

Cynhaliwyd yr adolygiad thematig hwn yn unol ag arweiniad Estyn ar gyfer gwaith thematig ar gyflwr y genedl. Defnyddiodd ystod eang o dystiolaeth i werthuso pa mor effeithiol yr oedd awdurdodau lleol yn cynorthwyo ysgolion yng Nghymru i gynllunio a rheoli eu cyllidebau. Roedd y dulliau'n cyfuno ymchwil arolygon, ymweliadau maes, cyfweliadau lled-strwythuredig, dadansoddiad o dystiolaeth ddogfennol ac adolygiad o lenyddiaeth genedlaethol a rhyngwladol. Cymhwysodd tîm y prosiect drywyddau ymholi cyson ar draws yr holl weithgareddau casglu tystiolaeth er mwyn sicrhau cymaroldeb a dibynadwyedd.

Dull dylunio gwaith maes

Cafodd dyluniad y gwaith maes ei lywio gan amcanion yr adolygiad thematig a set o gwestiynau ymholi strwythuredig a oedd wedi'u grwpio'n chwe maes thematig, sef:

1. Cyngor ariannol strategol a chyfathrebu
2. Gosod cyllideb a thryloywder
3. Hyfforddiant a llythrennedd ariannol
4. Monitro, risg ac ymyrraeth
5. Defnyddio grantiau targedig; a
6. Hybu tegwch a chynaliadwyedd.

Ffurfiodd y meysydd thematig hyn y fframwaith dadansoddol ar gyfer casglu'r holl dystiolaeth ac roeddent yn sail i ddatblygu arolygon, amserlenni cyfweliadau a chymhorthion cof. Tynnwyd y trywyddau ymholi'n uniongyrchol o gynllun y prosiect ac roeddent yn adlewyrchu cais Llywodraeth Cymru am gyngor.

Dilynwyd model samplu a luniwyd i gipio amrywiad demograffig a chyd-destunol ledled Cymru wrth ddewis awdurdodau lleol. Roedd y sampl derfynol yn cynnwys 13 awdurdod lleol a oedd yn cynrychioli cyd-destunau gwledig a threfol, darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, ardaloedd â niferoedd disgyblion sy'n gostwng ac yn cynyddu, ac awdurdodau â lefelau gwahanol o bwysau ariannol. Roedd pob cyfnod ysgolion a gynhelir yn rhan o'r cwmpas, gan gynnwys ysgolion cynradd, uwchradd, pob oed ac arbennig. Ni chynhwyswyd UC Dau a lleoliadau nas cynhelir, yn unol â chwmpas cytûn y prosiect.

Gweithgareddau gwaith maes

Yn ystod cyfnod y gwaith maes, cynhaliodd arolygwyr weithgareddau casglu tystiolaeth

strwythuredig ym mhob un o'r 13 ardal awdurdod lleol. Roedd y gweithgareddau hyn yn cynnwys:

- Cyfweiliadau lled-strwythuredig â swyddogion cyllid, swyddogion addysg, swyddogion adnoddau dynol ac uwch arweinwyr sy'n gyfrifol am gynllunio ariannol.
- Cyfweiliadau ag arweinwyr ysgolion gan gynnwys penaethiaid, rheolwyr busnes ysgolion a, lle'r oeddent ar gael, cadeiryddion cyrff llywodraethwyr neu gadeiryddion pwyllgorau cyllid.
- Adolygiad dogfennol o arweiniad ariannol, dogfennau fformiwlâu ariannu, amserlenni gosod cyllidebau, prosesau rheoli grantiau, protocolau adfer diffygion ariannol ac offerynnau monitro mewnol awdurdodau lleol.
- Cyfarfodydd triongli yn cynnwys swyddogion cyllid, addysg ac adnoddau dynol lle'r oedd y rhain yn rhan arferol o arfer.

At ei gilydd, cynhaliodd arolygwyr gyfweiliadau â rhanddeiliaid ar draws pob un o'r 13 ardal awdurdod lleol yr ymwelwyd â nhw. Roedd union nifer yr unigolion y cyfwelwyd â nhw yn amrywio yn ôl awdurdod, gan ddibynnu ar faint, strwythurau staffio a threfniadau lleol ar gyfer cymorth ariannol.

Cynhaliwyd pob cyfweiliad gan ddefnyddio cymhorthion cof cyffredin er mwyn sicrhau cysondeb. Roedd y cymhorthion cof yn ymdrin â meysydd cwestiynau a oedd yn cynnwys cyngor strategol, prosesau gosod cyllideb, monitro risg ariannol, defnyddio grantiau, darpariaeth hyfforddiant, ystyriaethau tegwch a llywodraethu. Roedd y meysydd cwestiynau hyn yn cyd-fynd â chwe rhan thematig y prosiect. Y cymhorthion cof a ddefnyddiwyd ar gyfer cyfweiliadau â swyddogion ALLau, penaethiaid, rheolwyr busnes a llywodraethwyr ysgolion oedd y rhai a nodwyd yng nghynllun y prosiect.

Tystiolaeth arolygon

Roedd dau arolwg cenedlaethol yn ffurfio rhan bwysig o'r sail dystiolaeth:

Arolwg awdurdodau lleol

Anfonwyd arolwg at bob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Roedd y cwestiynau'n canolbwyntio ar y cylch blynyddol o gymorth ariannol, prosesau sicrhau ansawdd, hyfforddiant, defnyddio grantiau, cynllunio strategol, adolygu fformiwlâu, ystyriaethau tegwch a threfniadau monitro. Cafodd pob awdurdod lleol ddolen i'r arolwg ac fe'u gwahoddwyd i ymateb. Cawsom ymatebion gan 15 awdurdod lleol.

Arolwg cyrff llywodraethol ac arweinwyr ysgolion

Anfonwyd ail arolwg cenedlaethol at benaethiaid, rheolwyr busnes ysgolion ac aelodau cyrff llywodraethol ysgolion a gynhelir yng Nghymru. Roedd yr arolwg yn archwilio barn llywodraethwyr ar eglurder, hygyrchedd ac amseroldeb cyngor; dealltwriaeth o gyllidebau dirprwyedig; effeithiolrwydd hyfforddiant ariannol; cyfathrebu ynghylch defnyddio grantiau; a chymorth yn ystod anhawster ariannol.

Cofnododd y dadansoddiad nifer yr ymatebion a, lle be modd, cyfradd ymateb gymesur â'r rhai a wahoddwyd. Cawsom gyfanswm o 145 o ymatebion i'r arolwg ar gyfer aelodau cyrff llywodraethol (llywodraethwyr, penaeithiaid, rheolwyr busnes ysgolion ac athrawon) o 105 o ddarparwyr unigol. Gofynnem i'r ymatebwyr nodi eu rôl. O'r rhai a ymatebodd, roedd 57.2% ohonynt yn llywodraethwyr, 41.1% ohonynt yn benaethiaid, 4.1% ohonynt yn rheolwyr busnes, ac 1.4% ohonynt yn athrawon.

Ni chomisiynwyd unrhyw sefydliad allanol i lunio na chynnal yr arolygon. Lluniwyd a gweinyddwyd y ddau arolwg yn fewnol gan Estyn, gyda chymorth technegol gan dîm ystadegau ac ymchwil Estyn.

Mae copïau o'r ddau arolwg i'r gweld ar dudalen we'r adroddiad thematig.

Ffynonellau eraill o dystiolaeth

Adolygodd y tîm ystod o dystiolaeth ddogfennol a chefnidiol, hefyd. Roedd hyn yn cynnwys dogfennau cyllideb Llywodraeth Cymru, adolygiadau o'r fformiwla ariannu ysgolion, arweiniad ar grantiau targedig, adroddiadau pwyllgorau'r Senedd, ymchwil genedlaethol ar bolisi ariannu a dadansoddiadau rhyngwladol o werth am arian, tegwch a defnyddio adnoddau. Darparodd y ffynonellau hyn gyd-destun polisi cenedlaethol, dadansoddiad cymharol a mewnwelediad i bwysau ariannol ehangach sy'n effeithio ar ysgolion yng Nghymru.

Lle cyfeiriwyd at ymchwil allanol, cydnabyddir bod y data hwn wedi'i gasglu at ddibenion gwahanol a chan ddefnyddio dulliau y tu hwnt i reolaeth yr adolygiad hwn. Defnyddiwyd canfyddiadau o'r ffynonellau hyn i roi cyd-destun i safbwyntiau awdurdodau lleol ac ysgolion yn unig, yn hytrach nag fel dystiolaeth uniongyrchol ar gyfer casgliadau gwerthusol.

Trin a dadansoddi data

Dadansoddwyd dystiolaeth o gyfweiliadau, arolygon ac adolygiadau ddogfennol yn thematig yn erbyn y chwe maes ymholi allweddol. Trioglwyd pob math o dystiolaeth er mwyn profi cysondeb a dibynadwyedd y canfyddiadau a ddaeth i'r amlwg.

Cyfyngiadau

Yn yr un modd â phob adolygiad thematig, mae'r dystiolaeth yn adlewyrchu cyfnod penodol y gwaith maes a sampl yr awdurdodau lleol yr ymwelwyd â nhw. Er i'r sampl gipio amrediad demograffig eang, efallai nad yw'r canfyddiadau'n cynrychioli pob agwedd ar arfer ym mhob un o'r 22 awdurdod. Nid oedd yr adolygiad yn cynnwys lleoliadau nas cynhelir, darparwyr addysg bellach nac ysgolion annibynnol. Ni ymatebodd dau awdurdod lleol i'r arolwg ac ni chawsant eu cynnwys yn rhestr y sampl ar gyfer ymweliadau.

Mae'n bwysig nodi bod sampl yr arolwg ar gyfer cyrff llywodraethol ac arweinwyr ysgolion yn hunanddetholus, sy'n golygu na ellir ystyried bod yr ymatebion yn nodweddiadol o lywodraethwyr ac arweinwyr yng Nghymru. Mae tueddiadau cynhenid yn yr ymatebion, gan y gallai llywodraethwyr ac arweinwyr fod wedi dewis ymateb oherwydd profiadau negyddol neu gadarnhaol dros ben yr oeddent am eu cyfleu. Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, mae triongli tystiolaeth yn sicrhau bod ein casgliadau'n gadarn.

Geirfa

AD (adnoddau dynol)	Rhan o'r awdurdod lleol neu'r ysgol sy'n ymdrin â materion staffio fel recriwtio, cyflog, contractau a pholisïau cyflogaeth.
Anghenion dysgu ychwanegol (ADY)	Term sy'n cael ei ddefnyddio yng Nghymru i ddisgrifio plant a phobl ifanc y mae angen cymorth ychwanegol arnynt i ddysgu, gan gynnwys y rhai sydd ag anawsterau dysgu, anabledau neu anghenion cymdeithasol, emosiynol neu ymddygiadol.
Awdurdod lleol (ALI)	Cyngor sy'n gyfrifol am addysg, cyllid, gofal cymdeithasol a gwasanaethau cyhoeddus eraill mewn ardal ddaearyddol ddiffiniedig.
Clwstwr / clwstwr ysgolion	Grŵp o ysgolion yn yr un ardal leol sy'n cydweithio â'i gilydd, sy'n aml yn cynnwys un ysgol uwchradd a'i hysgolion cynradd partner.
Cyfarfod amlasiantaeth	Cyfarfod lle mae swyddogion o'r adrannau cyllid, adnoddau dynol, ADY a gwella ysgolion yn dod at ei gilydd i roi cymorth cydgysylltiedig i ysgolion.
Cyllideb ddangosol	Amcangyfrif cynnar o'r cyllid y mae ysgol yn debygol o'i gael. Mae'n helpu ysgolion i gynllunio ymlaen llaw, er y gallai'r swm terfynol newid.
Cyllideb ddirprwyedig	Y cyllid y mae awdurdod lleol yn ei roi'n uniongyrchol i bob ysgol i'w reoli. Mae ysgolion yn gwneud penderfyniadau am staff, adnoddau a gwasanaethau gan ddefnyddio'r gyllideb hon.
Cynaliadwyedd ariannol	Gallu ysgol i gynnal ei staffio, ei chwricwlwm a'i darpariaeth dros gyfnod heb fynd i drafferthion ariannol.
Cyngor ariannol strategol	Arweiniad sy'n helpu ysgolion i feddwl yn hirdymor am staffio, cyllidebau, risgiau a chynaliadwyedd, yn hytrach na thasgau ariannol o ddydd i ddydd.

Cynllun adfer diffyg ariannol	Cynllun ffurfiol y mae'n rhaid i ysgolion ei lunio os ydynt yn gorwario. Mae'n amlinellu'r camau y byddant yn eu cymryd i ddychwelyd i gyllideb gytbwys, dros dair blynedd fel arfer.
Cynllunio ariannol tymor canolig	Cynllunio cyllid ysgol dros sawl blwyddyn—tair fel arfer—er mwyn helpu i sicrhau bod penderfyniadau staffio a'r cwricwlwm yn y dyfodol yn fforddiadwy.
Cynllunio ariannol wedi'i lywio gan y cwricwlwm	Dull o gynllunio cyllideb ysgol trwy ddechrau â'r cwricwlwm a chyfrifo'r staffio a'r adnoddau sydd eu hangen, gan sicrhau bod y cynlluniau hyn yn fforddiadwy.
Dangosfwrdd ariannol	Offeryn digidol sy'n dwyn ynghyd wybodaeth ariannol allweddol (fel gwariant a niferoedd disgyblion) i helpu ysgolion ac awdurdodau lleol i fonitro risgiau.
Dangosyddion amddifadedd	Mesurau sy'n cael eu defnyddio i nodi lefelau anfantais economaidd-gymdeithasol, fel cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim (PYaDd) neu ddata o Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC).
Darnio grantiau	Sefyllfa lle mae ysgolion yn cael llawer o grantiau bach ar wahân yn hytrach nag un ffrwd ariannu fwy, symlach. Gall hyn gynyddu'r llwyth gwaith a lleihau hyblygrwydd.
Fformiwlâ ariannu ysgolion	Y dull y mae awdurdodau lleol yn ei ddefnyddio i gyfrifo faint o gyllid y mae pob ysgol yn ei gael. Mae ffactorau'n aml yn cynnwys niferoedd disgyblion, ADY, amddifadedd a maint yr ysgol.
Fforwm cyllid ysgolion	Grŵp ym mhob awdurdod lleol sy'n cynrychioli ysgolion ac yn trafod materion ariannu, fel newidiadau i fformiwlâu neu bwysau ariannol.
Grant Datblygu Disgyblion (GDD)	Cyllid gan Lywodraeth Cymru i helpu ysgolion i gefnogi disgyblion y mae tlodi yn effeithio arnynt a lleihau effaith anfantais economaidd-gymdeithasol.
Grantiau targedig	Cyllid at ddibenion penodol, fel cefnogi disgyblion difreintiedig neu wella rhannau penodol o ddarpariaeth ysgol. Fel arfer,

daw'r grantiau hyn ag amodau a gofynion adrodd.

Gwasanaethau gwella ysgolion

Timau sy'n cynorthwyo ysgolion i wella addysgu, arweinyddiaeth a deilliannau disgyblion. Yn aml, maent yn cydweithio'n agos â chyllid ac adnoddau dynol lle mae pryderon ariannol yn effeithio ar ddarpariaeth.

Gwerth am arian

Barn ynghylch a yw gwariant yn cyflawni'r deilliannau gorau posibl i ddisgyblion gan ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael.

Meincnodi

Cymharu gwariant neu berfformiad ysgol ag ysgolion tebyg neu gyfartaleddau cenedlaethol er mwyn helpu i nodi cryfderau, bylchau neu feysydd i'w gwella.

Modelu senarios

Defnyddio senarios "beth petai" gwahanol i archwilio sut gallai newidiadau (fel niferoedd disgyblion neu benderfyniadau staffio) effeithio ar gyllideb ysgol yn y dyfodol.

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC)

Dyma'r mesur swyddogol o amddifadedd cymharol ar gyfer ardaloedd bach. Mae'n rhestru pob ardal yng Nghymru o'r mwyaf difreintiedig i'r lleiaf difreintiedig, gan ddarparu mesur cymharol o amddifadedd ar draws wyth maes.

Sgôr Coch Melyn Gwyrdd

System â chod lliw (Coch/Melyn/Gwyrdd) sy'n cael ei defnyddio i ddangos lefelau risg neu flaenoriaeth, gan helpu awdurdodau i nodi ble mae angen y cymorth mwyaf.

Niferoedd – symiau a chyfrannau

bron pob un =	gydag ychydig iawn o eithriadau
y rhan fwyaf =	90% neu fwy
llawer =	70% neu fwy
mwyafrif =	dros 60%
hanner =	50%
tua hanner =	yn agos at 50%
lleiafrif =	islaw 40%
ychydig =	islaw 20%
ychydig iawn =	llai na 10%

Cyfeiriadau

Archwilio Cymru (2023) *Cynaliadwyedd Ariannol Ysgolion yng Nghymru*. Caerdydd: Archwilio Cymru.

Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (2025) *Craffu ar Drefniadau Ariannu Ysgolion*. Caerdydd: Senedd Cymru.

Institute for Fiscal Studies (2023) *School Spending in England and Wales: Trends and Pressures*. Llundain: IFS.

Institute for Fiscal Studies (2024) *Long-term Financial Pressures in Education Systems*. Llundain: IFS.

Keppens, G. (2023) 'School absenteeism and its impact on learning', *Journal of Education Studies*, 57 (3), tt 245–262.

NAHT Cymru (2024) *Syrthio'n Brin: Yr argyfwng cyllido ysgolion yng Nghymru sy'n dwysau*. Caerdydd: NAHT Cymru.

OECD (2024) *Education at a Glance: Funding and Resource Deployment*. Paris: OECD Publishing.

Ymchwil y Senedd (2025) *School Funding in Wales: Key Issues and Trends*. Caerdydd: Senedd Cymru.

Llywodraeth Cymru (2023) *Adolygiad o'r Grant Datblygu Disgyblion*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2025) *Adolygiad o'r Fformiwla Cyllido Ysgolion*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Cydnabyddiaethau

Mae Estyn yn cydnabod yn ddiolchgar gyfranogiad pob un o'r 22 awdurdod lleol, y penaethiaid, rheolwyr busnes ysgolion, llywodraethwyr a swyddogion a gyfrannodd at gyfweiliadau ac arolygon, a swyddogion Llywodraeth Cymru a phartneriaid cenedlaethol a gefnogodd y gwaith.